Cyngor
Osteopathig
Cyffredinol

# Myfyrwyr ag anabledd neu gyflwr iechyd: Canllawiau ar gyfer Sefydliadau Addysgol Osteopathig

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| Adran 1: Cyflwyniad | 4 |
| Adran 2: Rôl a chyfrifoldebau'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol | 5 |
| Adran 3: Deddfwriaeth cydraddoldeb – Deddf Cydraddoldeb 2010 | 6 |
| Sut mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn effeithio ar sefydliadau addysgol osteopathig? | |
| Pa ddyletswyddau sy'n berthnasol i sefydliadau addysgol osteopathig? | |
| Beth sy'n cyfrif fel anabledd? | |
| Beth yw gwahaniaethu uniongyrchol? | |
| Beth yw gwahaniaethu anuniongyrchol? | |
| Beth yw gwahaniaethu sy'n deillio o anabledd? | |
| Beth yw erledigaeth? | |
| Beth yw aflonyddu? | |
| Beth yw'r ddyletswydd addasiadau rhesymol? | |
| Beth mae darpariaeth, maen prawf ac ymarfer yn ei olygu? | |
| Dyletswyddau penodol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 | |
| Cefnogi staff i gyflawni eu cyfrifoldebau | |
| Adran 4: Taith y myfyriwr | 15 |
| Rhagweld anghenion pobl ag anableddau a chyflyrau iechyd | |
| Recriwtio a dethol | |
| Marchnata | |
| Cais | |
| Dewis | |
| Paratoi ar gyfer derbyn | |
| Cynefino | |
| Cyfrinachedd | |
| Gwneud addasiadau i ddulliau dysgu, addysgu ac asesu | |
| Dychwelyd i gwrs | |
| Polisïau addasrwydd i astudio | |
| Addasrwydd myfyrwyr i ymarfer | |
| Hyrwyddo llesiant | |
| Cyflawni cymhwyster cydnabyddedig | |
| Adran 5: Rhagor o wybodaeth | 33 |

Mae llawer o bobl ag anableddau a chyflyrau iechyd hirdymor yn gallu dilyn addysg a hyfforddiant osteopathig, ennill cymhwyster sy'n caniatáu iddyn nhw geisio cofrestru fel osteopath, ac ymarfer osteopathi gydag addasiadau neu heb addasiadau i'w helpu i ymarfer.

Mae'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol wedi ymrwymo i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant i sicrhau bod y proffesiwn osteopathig yn adlewyrchu'r gymdeithas y mae'n ei gwasanaethu. Rydym yn annog unrhyw un sydd â'r potensial i ddod yn ymarferwyr osteopathig annibynnol i ystyried gyrfa mewn osteopathi ac mae hyn yn cynnwys pobl ag anableddau a chyflyrau iechyd hirdymor.

Dylai sefydliadau addysgol osteopathig adolygu a diwygio eu polisïau a'u harferion yn rheolaidd, er mwyn annog y cyfraniad ehangaf posibl mewn addysg ac ymarfer osteopathig.

## Adran 1: Cyflwyniad

1. Mae'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol (GOsC) wedi ymrwymo i hyrwyddo cydraddoldeb yn ei holl swyddogaethau. Hoffem sicrhau bod y sefydliadau addysgol osteopathig sy'n cynnig cyrsiau rydym yn eu rheoleiddio nid yn unig yn cyflawni eu rhwymedigaethau cyfreithiol o ran cydraddoldeb anabledd, ond hefyd yn annog a chefnogi pobl ag anableddau a chyflyrau iechyd sydd â'r potensial i ddod yn ymarferwyr osteopathig annibynnol.

2. Paratowyd y canllawiau hyn i gefnogi sefydliadau addysgol osteopathig i ddiwallu anghenion darpar fyfyrwyr a myfyrwyr presennol sydd ag anableddau a/neu gyflyrau iechyd, neu sy'n eu datblygu yn ystod eu hyfforddiant. Dylech ei ddarllen ar y cyd â'n canllawiau ar addasrwydd myfyrwyr i ymarfer[1] a'r ddogfen gydymaith i'r canllawiau hyn: *Canllawiau i ymgeiswyr a myfyrwyr ag anabledd neu gyflwr iechyd.*[2]

3. Mae'r canllawiau hyn yn ymdrin â'n disgwyliadau a'r dyletswyddau sy'n codi o *Ddeddf Cydraddoldeb 2010* – yn enwedig rhwymedigaethau cyfreithiol sefydliadau addysgol osteopathig tuag at ymgeiswyr a myfyrwyr sy'n bodloni'r diffiniad o fod yn 'anabl' at ddibenion y Ddeddf. Nid yw'r canllawiau'n mynd i'r afael â materion cydraddoldeb eraill fel rhyw neu gred grefyddol (sydd bellach yn dod o dan yr un ymbarél cyfreithiol ag anabledd), nac yn ymdrin â'r dyletswyddau y gallai sefydliad addysgol eu cael (o dan y Ddeddf) fel cyflogwr na'r safonau neu'r gofynion a osodir gan brifysgol ddilysu.

4. Mae Adran 2 o'r canllawiau hyn yn rhoi trosolwg o'r cyd-destun rheoleiddio drwy ailddatgan ein pwrpas a'n cyfrifoldebau. Mae Adran 3 yn nodi agweddau anabledd y ddeddfwriaeth cydraddoldeb fel sy'n berthnasol i sefydliadau addysgol osteopathig. Mae Adran 4 yn ymdrin â materion y dylid eu hystyried ar adegau gwahanol yn ystod taith y myfyriwr. Bydd hyn yn helpu sefydliadau i sicrhau bod yr addysg a'r hyfforddiant osteopathig maen nhw'n eu darparu yn diwallu anghenion myfyrwyr ag anableddau a chyflyrau iechyd, ac yn bodloni eu rhwymedigaethau cyfreithiol.

5. Mae'r ffynonellau gwybodaeth a chyngor pellach wedi'u rhestru yn Adran 5.

---

[1] Ar gael yn: osteopathy.org.uk/news-and-resources/publications/student-fitness-to-practise-guidance

[2] Ar gael yn: osteopathy.org.uk/news-and-resources/document-library/fitness-to-practise/guidance-for-applicants-and-students-with-a-disability-or/

## Adran 2: Ein rôl a'n cyfrifoldebau ni

6. Fel pob rheoleiddiwr gofal iechyd, amcan cyffredinol y Cyngor Osteopathig Cyffredinol yw diogelu'r cyhoedd. Mae hyn yn cynnwys diogelu, hyrwyddo a chynnal iechyd, diogelwch a llesiant y cyhoedd; hyrwyddo a chynnal hyder y cyhoedd ym maes osteopathi; a hybu a chynnal safonau ac ymddygiad proffesiynol priodol ar gyfer aelodau'r proffesiynau hynny[3].

7. Yn y DU mae'r teitl 'osteopath' wedi'i ddiogelu gan y gyfraith. Mae'n drosedd, sy'n agored i erlyniad, i unrhyw un hawlio ei fod yn osteopath oni bai ei fod ar y Gofrestr gyhoeddus a gynhelir gan y Cyngor Osteopathig Cyffredinol.

8. Rydym yn gweithio gyda'r cyhoedd a'r proffesiwn osteopathig i hyrwyddo diogelwch cleifion trwy osod a monitro safonau ymarfer ac ymddygiad osteopathig, trwy sicrhau ansawdd addysg osteopathig, a thrwy sicrhau bod osteopathiaid cofrestredig yn cyflawni datblygiad proffesiynol parhaus.

9. Hefyd, rydym yn helpu cleifion sydd â phryderon neu gwynion am osteopath. Mae gan y Cyngor Osteopathig Cyffredinol y pŵer i gyfyngu ar gofrestru neu dynnu oddi ar y Gofrestr unrhyw osteopath yr ydym yn barnu ei fod yn anaddas i ymarfer.

10. Mae'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol yn cydnabod cyrsiau addysg a hyfforddiant osteopathig mewn sefydliadau sy'n bodloni ein safonau. Mae myfyrwyr sy'n cwblhau rhaglenni o'r fath yn llwyddiannus yn derbyn cymhwyster cydnabyddedig. Mae penderfynu pwy ddylai gael cymhwyster cydnabyddedig yn gyfrifoldeb pwysig ar bob sefydliad addysgol osteopathig, dyletswydd sy'n cael ei hystyried ymhellach yn Adran 4 y canllawiau hyn. Mae cymhwyster cydnabyddedig yn gadarnhad bod y deiliad yn gallu ymarfer, heb oruchwyliaeth, i'r safonau a gyhoeddir yn ein *Safonau Ymarfer Osteopathig*[4].

11. Mae cymhwyster cydnabyddedig yn rhoi cymhwyster i gofrestru fel osteopath, yn amodol ar fodloni gofynion cymeriad ac iechyd, talu'r ffi benodol, a chael yswiriant indemniad proffesiynol ar waith cyn dechrau ymarfer. Ni fydd y Cyngor Osteopathig Cyffredinol fel arfer yn edrych y tu ôl i'r cymhwyster - rydym yn dibynnu ar sefydliadau addysgol osteopathig i sicrhau bod cymwysterau cydnabyddedig dim ond yn cael eu dyfarnu i fyfyrwyr sydd wedi bodloni ein holl safonau.

12. Wrth wneud cais i ymuno â'r Gofrestr, rhaid i ymgeisydd gyflwyno geirda iechyd gan feddyg sydd wedi'i adnabod am bedair blynedd neu sydd â mynediad i'w gofnodion iechyd o'r pedair blynedd diwethaf. Mae'r gofyniad 'iechyd da'[5] yn golygu bod

    ... *a person must be capable of safe and effective practice without supervision. It does not mean the absence of any disability or health condition. Many disabled people and those with long-term health conditions are able to practise with or without adjustments to support their practice.*[6]

---

[3] A3(1) *Deddf Osteopathiaid 1993*, fel y'i diwygiwyd gan *Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Diogelwch ac Ansawdd) 2015*.

[4] Ar gael yn:: https://standards.osteopathy.org.uk/

[5] Gweler a3(2)(c) *Deddf Osteopathiaid 1993*: legislation.gov.uk/cy/ukpga/1993/21/contents

[6] O ganllawiau ar ymddygiad proffesiynol ac addasrwydd i ymarfer ar gyfer myfyrwyr osteopathig: ar gael yn osteopathy.org.uk/training-and-registration/becoming-an-osteopath/student-fitness-to-practise

13. Mae'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol yn monitro safonau addysg a hyfforddiant mewn sefydliadau addysgol osteopathig trwy broses o adrodd blynyddol ac rydyn ni hefyd yn cynnal adolygiadau llawn yn rheolaidd, fel arfer bob tair i bum mlynedd. Mae'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch yn gwneud hyn drosom ni. Cynhelir adolygiadau gan gyfeirio at ein safonau cyhoeddedig, gan gynnwys *Guidance on Osteopathic Pre-Registration Education (2015)* a Subject Benchmark Statement for Osteopathy (2015) yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd.[7]

### Adran 3: Deddfwriaeth Cydraddoldeb - *Deddf Cydraddoldeb 2010*

14. Mae'r adran hon yn darparu gwybodaeth am ddeddfwriaeth cydraddoldeb anabledd sy'n berthnasol i addysg a hyfforddiant osteopath. Mae'n hanfodol bod sefydliadau addysgol osteopathig yn deall eu cyfrifoldebau o dan y ddeddfwriaeth ac yn adolygu a diwygio eu polisïau a'u harferion yn rheolaidd yn unol â hynny.

15. *Mae Deddf Cydraddoldeb 2010* (y Ddeddf) yn gymwys i Gymru, Lloegr a'r *Alban;* Mae deddfwriaeth gwrth-wahaniaethu ar wahân ar waith yng Ngogledd Iwerddon

16. Mae'r Ddeddf yn gwahardd sefydliadau addysg rhag aflonyddu, erlid neu wahaniaethu yn erbyn:

    - darpar fyfyrwyr mewn perthynas â threfniadau derbyn
    - myfyrwyr y sefydliad/athrofa, gan gynnwys rhai sy'n absennol neu sydd wedi'u gwahardd dros dro
    - cyn-fyfyrwyr (os oes perthynas barhaus yn seiliedig ar eu bod wedi bod yn fyfyriwr yn y sefydliad)
    - pobl sy'n cael eu hystyried yn 'anabl' at ddibenion y Ddeddf nad ydynt yn fyfyrwyr yn y sefydliad ond sydd â chymwysterau a roddwyd gan y sefydliad neu sydd wedi gwneud cais amdanynt.

17. Os yw unigolyn yn credu ei fod wedi dioddef achos o wahaniaethu, aflonyddu neu erlid gan sefydliad addysg ar sail un o naw nodwedd warchodedig y Ddeddf, gallai wneud hawliad dan *Ddeddf Cydraddoldeb 2010*.

### Sut mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn effeithio ar sefydliadau addysgol osteopathig?

18. Bydd sefydliadau addysgol osteopathig sy'n brifysgolion yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Ddeddf Cydraddoldeb sy'n berthnasol i sefydliadau addysg bellach ac uwch. Bydd sefydliadau addysgol nad ydynt yn brifysgolion neu'n sefydliadau addysg bellach neu addysg uwch yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Ddeddf sy'n llywodraethu gweithgareddau darparwyr gwasanaethau. Yn ogystal, gellir ystyried sefydliadau nad ydynt yn brifysgolion

[7] *Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch, 2015, Datganiad Meincnod Pwnc ar gyfer Osteopathi*, Caerloyw, QAA, *ar gael yn:* qaa.ac.uk/en/Publications/Documents/SBS-Osteopathy-15.pdf

ond sy'n darparu cyrsiau gradd wedi'u dilysu gan y brifysgol, fel asiant y brifysgol o dan y Ddeddf ac, o'r herwydd, yn ddarostyngedig anuniongyrchol i'r darpariaethau sy'n llywodraethu sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch. Er gwaetha'r gwahaniaethau statws hyn, bydd dyletswyddau pob sefydliad addysgol osteopathig o dan y Ddeddf Cydraddoldeb yn debyg iawn, ac ar y cyfan, ni wneir unrhyw wahaniaeth yn y canllawiau hyn o ran y dyletswyddau sy'n ddyledus gan fathau gwahanol o sefydliadau. Fodd bynnag, mae un gwahaniaeth pwysig - dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus.

19. Bydd sefydliadau addysgol osteopathig sy'n brifysgolion, neu'n sefydliadau addysg bellach neu addysg uwch o fewn ystyr y Ddeddf Cydraddoldeb yn ddarostyngedig i ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus. Mae hon yn ddyletswydd gyffredinol sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus gymryd camau nid yn unig i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon ond hefyd i hyrwyddo cydraddoldeb i'r eithaf, a meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig benodol a phobl nad ydynt. Mae dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus hefyd yn berthnasol i gyrff preifat a gwirfoddol mewn perthynas ag unrhyw swyddogaethau cyhoeddus y maent yn eu cyflawni.

20. Mae'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol wedi ymrwymo i hyrwyddo cydraddoldeb a'r arfer gwrthwahaniaethol gorau yn y sefydliadau addysgol osteopathig sy'n cynnig cyrsiau rydym ni'n eu rheoleiddio. Ni allwn, drwy'r canllawiau hyn, newid rhwymedigaethau sefydliadau addysgol o dan y Ddeddf Cydraddoldeb, y maen nhw eu hunain yn gyfrifol amdani, ond rydym o'r farn ei bod yn briodol cymhwyso ein disgwyliadau arferion gorau yn unffurf i bob sefydliad addysgol osteopathig, waeth beth yw eu cyfansoddiad neu statws corfforaethol.

**Pa ddyletswyddau sy'n berthnasol i sefydliadau addysgol osteopathig?**

21. Mae *Deddf Cydraddoldeb 2010* yn diogelu myfyrwyr rhag gwahaniaethu neu aflonyddu ar sail 'nodwedd warchodedig'[8], a hefyd rhag erledigaeth. Mae anabledd yn nodwedd warchodedig.

22. Mae gwahaniaethu anghyfreithlon yn cynnwys:

- gwahaniaethu uniongyrchol (gan gynnwys gwahaniaethu yn seiliedig ar ganfyddiad neu gysylltiad)
    - gwahaniaethu anuniongyrchol
    - gwahaniaethu sy'n deillio o anabledd
    - methu â gwneud addasiadau rhesymol i bobl anabl.

---

[8] Y nodweddion gwarchodedig ar gyfer sefydliadau addysg bellach ac uwch a bennir yn *Neddf Cydraddoldeb 2010* yw: oed; anabledd; ailbennu rhywedd; beichiogrwydd a mamolaeth; hil, crefydd neu gred (gan gynnwys diffyg cred); rhyw; a chyfeiriadedd rhywiol. Nid yw bod yn briod neu mewn partneriaeth sifil yn nodwedd warchodedig yn narpariaethau sefydliadau addysg bellach ac uwch y Ddeddf.

**Beth sy'n cyfrif fel anabledd?**

23. Mae gan berson anabledd at ddibenion y Ddeddf Cydraddoldeb os oes ganddo nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith andwyol sylweddol a hirdymor ar ei allu i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd. Does dim angen i berson gael achos â diagnosis meddygol dros ei nam - yr hyn sy'n bwysig yw effaith y nam.

24. Mae'r profion y gellir eu defnyddio i benderfynu a oes gan rywun nodwedd warchodedig anabledd yn cynnwys:

- y cyfnod o amser mae effaith y cyflwr wedi para neu y bydd yn para - rhaid iddo fod yn hirdymor: Hynny yw, mae wedi para am o leiaf 12 mis, mae'n debygol o bara am o leiaf 12 mis, neu'n debygol o bara am weddill oes yr unigolyn

- a yw effaith y nam i'w gwneud hi'n anoddach a/neu'n cymryd llawer o amser i berson gyflawni gweithgaredd, o'i gymharu â rhywun nad oes ganddo'r nam, ac mae hyn yn achosi mwy na mân neu ddibwys o anghyfleustra

- os yw'r gweithgareddau sy'n anoddach i'w gwneud yn 'weithgareddau arferol o ddydd i ddydd' yn y gwaith neu gartref

- a yw'r cyflwr yn cael yr effaith hon heb ystyried effaith unrhyw feddyginiaeth mae'r unigolyn yn ei chymryd, neu unrhyw gymhorthion neu gymorth neu addasiadau sydd ganddo, fel cadair olwyn neu feddalwedd benodol ar ei gyfrifiadur (ac eithrio gwisgo sbectol neu lensys cyffwrdd lle mai dyma'r effaith tra mae'r unigolyn yn gwisgo'r sbectol neu'r lensys cyffwrdd sy'n cael eu hystyried).[9]

25. Gall 'amhariad' gwmpasu, er enghraifft, cyflyrau meddygol hirdymor fel asthma a diabetes, a chyflyrau amrywiol neu gynyddol fel arthritis gwynegol. Mae'n cynnwys cyflyrau iechyd meddwl (megis anhwylder deubegynol, iselder neu anhwylderau bwyta), anawsterau dysgu (fel dyslecsia), ac anableddau dysgu (fel rhai cyflyrau ar y sbectrwm awtistig). Mae rhai pobl, gan gynnwys rhai â chanser, sglerosis ymledol a HIV/AIDS, yn cael eu diogelu'n awtomatig fel 'pobl anabl' gan y Ddeddf. Bydd pobl sydd ag anffurfiad difrifol yn cael eu diogelu fel pobl anabl heb orfod dangos ei fod yn cael effaith andwyol sylweddol ar weithgareddau bob dydd. Mae cyflyrau cynyddol a'r rhai sydd ag effeithiau amrywiol neu gylchol, gan gynnwys cyflyrau iechyd meddwl fel iselder, hefyd wedi'u cynnwys ar yr amod eu bod yn bodoli'r prawf o gael effaith negyddol sylweddol a hirdymor ar allu rhywun i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd. Mae'r Ddeddf hefyd yn diogelu pobl sydd wedi bodloni'r diffiniad yn y gorffennol.

---

[9] Mae rhagor o fanylion am benderfynu ar nam yn ymddangos yn *Atodlen 1 Anabledd: Darpariaeth Atodol - Rhan 1 Penderfynu ar Anabledd, Deddf Cydraddoldeb 2010,* ac yn y canllawiau canlynol: Office for Disability Issues, May 2011, *Equality Act 2010 Guidance: Guidance on matters to be taken into account in determining questions relating to the definition of disability,* sydd ar gael yn: odi.dwp.gov.uk/docs/law/ea/ea-guide-2.pdf

26. Ystyrir bod cyflyrau iechyd meddwl hirdymor yn anableddau o dan *Ddeddf Cydraddoldeb 2010*. Felly, mae gan sefydliadau addysgol osteopathig ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol i fyfyrwyr â chyflyrau iechyd meddwl hirdymor. Hyd yn oed mewn achosion lle nad yw iechyd meddwl myfyriwr yn dod o dan y Ddeddf, byddai'n dal i gael ei ystyried yn arfer gorau i wneud addasiadau rhesymol i gefnogi myfyrwyr i ennill cymhwyster llwyddiannus ac ymarfer osteopatheg yn ddiogel.

27. Mae amryw o eithriadau o'r diffiniad. Er enghraifft, nid yw dibyniaeth ar gyffuriau ac alcohol yn cael eu hystyried yn namau meddyliol neu gorfforol at ddibenion y Ddeddf.

**Beth yw gwahaniaethu uniongyrchol?**

28. Mae gwahaniaethu uniongyrchol yn digwydd os yw myfyriwr yn cael ei drin yn llai ffafriol na myfyriwr arall oherwydd anabledd[10]. Er mwyn i fyfyriwr ddangos bod rhywun wedi gwahaniaethu'n uniongyrchol yn ei erbyn, byddai'n rhaid iddo gymharu'r hyn a ddigwyddodd iddo/iddi gyda'r hyn a ddigwyddodd, neu a fyddai'n digwydd, â myfyriwr heb ei anabledd.

29. Mae'r Ddeddf yn cynnwys darpariaethau sy'n galluogi sefydliadau addysgol i gymryd 'camau cadarnhaol' i fynd i'r afael ag anfantais benodol, diwallu gwahanol anghenion neu fynd i'r afael â chyfranogiad isel grŵp penodol o fyfyrwyr, ar yr amod bod amodau penodol yn cael eu bodloni. Nid yw gweithredu cadarnhaol o'r fath yr un fath â gwahaniaethu cadarnhaol, sy'n anghyfreithlon, gyda dau eithriad:

- Nid yw byth yn anghyfreithlon trin myfyrwyr neu ymgeiswyr anabl yn fwy ffafriol na myfyrwyr neu ymgeiswyr nad ydynt yn anabl, oherwydd neu mewn cysylltiad â'u hanabledd.
- Nid yw chwaith yn anghyfreithlon i drin myfyriwr benywaidd yn fwy ffafriol oherwydd ei bod yn feichiog, neu wedi rhoi genedigaeth yn ystod y 26 wythnos diwethaf, neu yn bwydo babi ar y fron sy'n iau na 26 wythnos oed.

30. Mae mathau eraill o wahaniaethu yn cynnwys:

**Gwahaniaethu yn seiliedig ar gysylltiad**: Mae hyn yn digwydd pan fydd myfyriwr yn cael ei drin yn llai ffafriol oherwydd ei gysylltiad â pherson arall sydd â nodwedd warchodedig (ac eithrio beichiogrwydd a mamolaeth). Gall hyn ddigwydd pan fydd myfyriwr yn cael ei drin yn llai ffafriol *oherwydd* bod gan riant, brawd neu chwaer neu ffrind nodwedd warchodedig.

**Gwahaniaethu yn seiliedig ar ganfyddiad:** Mae hyn yn digwydd pan fydd myfyriwr yn cael ei drin yn llai ffafriol oherwydd canfyddiad anghywir bod ganddo nodwedd warchodedig (heblaw beichiogrwydd a mamolaeth).

[10] Mae gwefan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn rhoi trosolwg defnyddiol o'r gwahanol fathau o wahaniaethu, gydag enghreifftiau o achosion: equalityhumanrights.com/private-and-public-sector-guidance/education-providers/higher-education-providers-guidance/key-concepts/what-discrimination

**Gwahaniaethu oherwydd beichiogrwydd a mamolaeth:** Mae trin menyw (gan gynnwys myfyriwr benywaidd o unrhyw oedran) yn llai ffafriol oherwydd ei bod hi'n feichiog neu wedi bod yn feichiog, wedi rhoi genedigaeth yn ystod y 26 wythnos diwethaf neu sy'n bwydo babi ar y fron sy'n 26 wythnos neu'n iau, yn achos o wahaniaethu. Mae trin menyw (gan gynnwys myfyriwr benywaidd o unrhyw oedran) yn llai ffafriol oherwydd ei bod yn bwydo plentyn ar y fron sydd dros 26 wythnos oed, yn enghraifft o wahaniaethu uniongyrchol ar sail rhyw.

**Beth yw gwahaniaethu anuniongyrchol?**

31. Mae gwahaniaethu anuniongyrchol yn digwydd os bydd, wrth gymhwyso 'darpariaeth, maen prawf neu ymarfer' (gweler isod) yn yr un modd ar gyfer pob myfyriwr, yn cael yr effaith o roi myfyrwyr ag anableddau a/neu gyflyrau iechyd dan anfantais benodol, waeth ai dyma'r bwriad ai peidio. Nid yw'r hyn a olygir yn 'anfantais' yn cael ei ddiffinio yn y Ddeddf, ond canllaw cyffredinol yw y byddai person rhesymol yn ystyried bod anfantais wedi digwydd. Gall fod ar sawl ffurf wahanol, megis gwrthod cyfle neu ddewis, atal, gwrthod neu wahardd.

32. Gellir cyfiawnhau rhai polisïau ac arferion os ydyn nhw'n ffordd gymesur o gyflawni nod dilys, ar yr amod bod y nod yn gyfreithiol ac yn anwahaniaethol. Enghraifft o hyn yw darpariaethau, meini prawf neu arferion sy'n ymwneud â chynnal safonau cymhwysedd academaidd ac ymarferydd, er na fyddai hyn yn osgoi dyletswydd sefydliad addysgol osteopathig i wneud addasiadau rhesymol yn achos myfyrwyr ag anableddau a/neu gyflyrau iechyd.

**Beth yw gwahaniaethu sy'n deillio o anabledd?**

33. Byddai gwahaniaethu sy'n deillio o anabledd yn digwydd pe bai myfyriwr anabl yn cael ei drin yn anffafriol oherwydd rhywbeth sy'n gysylltiedig â'i anabledd, ac ni allai'r sefydliad addysgol osteopathig gyfiawnhau'r driniaeth honno. Mae hyn yn wahanol i wahaniaethu uniongyrchol (sy'n codi mewn perthynas â nodwedd warchodedig anabledd ei hun), a gwahaniaethu anuniongyrchol (oherwydd nad oes angen dangos bod pobl eraill wedi eu heffeithio ynghyd â'r myfyriwr anabl, neu dim angen i'r myfyriwr anabl gymharu ei hun ag unrhyw un arall).

34. Byddai gwahaniaethu sy'n deillio o anabledd yn digwydd os bydd y tri amod canlynol yn codi:

- mae myfyriwr sy'n bodloni'r diffiniad o anabledd yn y Ddeddf yn cael ei drin yn anffafriol, gan ei roi dan anfantais, hyd yn oed os nad dyma'r bwriad
- cafodd ei drin yn wahanol oherwydd rhywbeth sy'n gysylltiedig ag anabledd neu gyflwr iechyd y myfyriwr
- ni ellir cyfiawnhau'r driniaeth trwy ddangos ei bod yn ffordd gymesur o gyflawni nod dilys.

35. Os gall y sefydliad addysgol osteopathig ddangos nad oedd yn gwybod ac na ellid disgwyl yn rhesymol iddo wybod bod gan fyfyriwr anabl yr anabledd, efallai na fydd y driniaeth anffafriol yn gyfystyr â gwahaniaethu anghyfreithlon sy'n deillio o anabledd. Fodd bynnag, dylid gwneud pob ymdrech i sicrhau bod myfyrwyr yn teimlo eu bod yn gallu trafod gwybodaeth berthnasol am eu hiechyd neu anabledd a dylai'r sefydliad fod yn effro i unrhyw arwyddion y gallai myfyriwr fod yn cael anawsterau sy'n deillio o gyflwr iechyd neu anabledd.

**Beth yw aflonyddu?**

36. Mae Deddf 2010 yn diffinio aflonyddu fel ymddygiad digroeso sy'n gysylltiedig â nodwedd warchodedig berthnasol, sydd â'r pwrpas neu'r effaith o dorri urddas unigolyn neu greu a dychryn, amgylchedd gelyniaethus, diraddiol, gwaradwyddus neu sarhaus i'r unigolyn hwnnw[11]. Anabledd yw un o'r nodweddion gwarchodedig dan y Ddeddf.

**Beth yw erledigaeth?**

37. Diffinnir erledigaeth yn y Ddeddf fel trin rhywun yn wael am eu bod wedi gwneud 'gweithred warchodedig' (neu oherwydd credir bod person wedi gwneud neu yn mynd i wneud gweithred warchodedig)[12].

38. Ystyr 'gweithred warchodedig' yw:

- Gwneud hawliad neu gŵyn o wahaniaethu (o dan y Ddeddf Cydraddoldeb).
- Helpu rhywun arall i wneud hawliad drwy roi tystiolaeth neu wybodaeth.
- Gwneud honiad bod rhywun arall wedi torri'r Ddeddf.
- Gwneud unrhyw beth arall mewn cysylltiad â'r Ddeddf.

39. Os caiff myfyriwr ei drin yn llai ffafriol oherwydd ei fod wedi cymryd camau o'r fath, yna bydd hyn yn erledigaeth anghyfreithlon. Rhaid bod cysylltiad rhwng yr hyn a wnaeth y myfyriwr a'i driniaeth. Gall unrhyw un hawlio achos o erledigaeth. Nid oes rhaid iddynt wneud hynny mewn perthynas ag un o'r nodweddion gwarchodedig.

**Beth yw'r ddyletswydd 'addasiadau rhesymol'?**

40. Mae *Deddf Cydraddoldeb 2010* yn gosod dyletswydd i wneud addasiadau rhesymol - hynny yw, cymryd camau cadarnhaol i sicrhau bod myfyrwyr ag anableddau a chyflyrau iechyd yn gallu cymryd rhan lawn yn yr addysg a'r buddion, y cyfleusterau a'r gwasanaethau eraill rydych chi'n eu darparu i fyfyrwyr osteopathig.

41. Dylai sefydliadau addysgol osteopathig gymryd camau rhesymol i sicrhau nad yw unrhyw ddarpariaeth, maen prawf neu ymarfer (gweler isod), nac unrhyw nodwedd ffisegol, yn rhoi myfyrwyr (gan gynnwys ymgeiswyr ac mewn rhai amgylchiadau cyfyngedig, cyn-fyfyrwyr) ag anableddau a/neu gyflyrau iechyd dan anfantais sylweddol (h.y. mae'n fwy na mân neu ddibwys). Dylai sefydliadau addysgol hefyd ddarparu cymhorthion neu wasanaethau ategol – megis offer, meddalwedd cyfrifiadurol, neu gymorth ychwanegol gan staff – lle byddai myfyrwyr sy'n bodloni'r diffiniad o fod yn 'anabl' yn y Ddeddf yn cael eu rhoi dan anfantais sylweddol hebddynt.

---

[11] Ar gael yn: www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/section/26
[12] Gweler gwefan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol: www.equalityhumanrights.com/en/advice-and-guidance/what-victimisation

42. Mae'r ddyletswydd yn ddyledus i bobl anabl yn gyffredinol. Mae'n rhagweladwy ac yn parhau yn yr ystyr bod disgwyl i sefydliadau addysgol osteopathig gymryd camau i osgoi achosi anfantais sylweddol, waeth a ydyn nhw'n gwybod bod myfyriwr penodol yn bodloni'r diffiniad ai peidio, neu a oes ganddynt fyfyrwyr anabl ar hyn o bryd.

43. Dylai sefydliadau addysgol osteopathig gynllunio ar gyfer addasiadau posib sydd eu hangen, gan ragweld gofynion myfyrwyr ag anableddau a/neu gyflyrau iechyd, gan ddileu rhwystrau posibl. Nid oes cyfiawnhad dros fethu â gwneud addasiad rhesymol lle mae'r ddyletswydd yn gymwys, ond mae hyn yn ymestyn i'r hyn sy'n rhesymol yn unig. Nid yw'r Ddeddf yn diffinio beth sy'n 'rhesymol' - mater i'r llysoedd yw penderfynu ar hyn yn y pen draw - ond mae canllawiau statudol yn ei gwneud yn glir y gellid ystyried y canlynol:

- pa mor effeithiol fydd addasiad wrth oresgyn yr anhawster a nodwyd.
- a yw'n ymarferol gwneud yr addasiad.
- y costau ariannol ac eraill dan sylw, a'r arian sydd eisoes wedi'i wario ar wneud addasiadau.
- faint o aflonyddwch fydd yr addasiad yn ei achosi.
- unrhyw gymorth ariannol neu gymorth arall sydd ar gael (er enghraifft, gall myfyrwyr fod yn gymwys i gael cyllid o'r Lwfans[13] Myfyrwyr Anabl - grant i helpu myfyrwyr i dalu costau ychwanegol astudio, sy'n ganlyniad uniongyrchol i anabledd neu gyflwr iechyd.

44. Mae'n arfer da gweithio gyda myfyrwyr i benderfynu pa addasiadau y gellir eu gwneud, ond ni ddylai sefydliadau addysgol osteopathig ddisgwyl i fyfyrwyr fod yn ymwybodol o'r holl addasiadau a allai fod ar gael. Pan fydd myfyriwr yn gwneud awgrymiadau penodol, dylai sefydliadau addysgol ystyried a fyddai'r addasiadau yn helpu i oresgyn yr anfantais ai peidio ac a yw'n rhesymol ai peidio.

45. I grynhoi, lle mae myfyrwyr ag anableddau a/neu gyflyrau iechyd yn cael eu rhoi dan anfantais sylweddol gan bolisïau neu arferion, absenoldeb cymorth ategol, neu nodwedd ffisegol, rhaid i sefydliadau addysgol osteopathig ystyried a oes modd gwneud unrhyw addasiad rhesymol i oresgyn yr anfantais.

### Beth mae darpariaeth, maen prawf ac ymarfer yn ei olygu?

46. Nid yw'r telerau hyn yn cael eu diffinio gan y Ddeddf Cydraddoldeb ond maen nhw'n cyfeirio at ddarparu addysg, cyfleusterau a gwasanaethau i fyfyrwyr. Bwriedir i'r telerau gynnwys holl drefniadau, polisïau, gweithdrefnau a gweithgareddau sefydliad addysgol osteopathig, gan gynnwys penderfyniadau a chynigion unigol neu gyfarwyddiadau i newid arfer mewn rhyw ffordd.[14]

[13] Mae rhagor o wybodaeth am y Lwfans Myfyrwyr Anabl ar gael yn: www.gov.uk/disabled-students-allowances-dsas/overview
[14] Gweler gwefan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol: www.equalityhumanrights.com/cy

47. Pan fo myfyrwyr sy'n 'anabl' yn nhelerau Deddf Cydraddoldeb yn cael eu rhoi dan anfantais sylweddol wrth gyrchu neu elwa ar ddarpariaeth, cyfleusterau neu wasanaethau sefydliad addysgol, rhaid cymryd pob mesur rhesymol i sicrhau nad yw'r ddarpariaeth, maen prawf neu arfer yn cael yr effaith honno mwyach.

48. Mewn addysg osteopathig, mae theori ac ymarfer osteopatheg yn anwahanadwy. Mae'n hanfodol bod myfyrwyr yn bodloni safonau ymarfer academaidd a phroffesiynol. Rhaid i fyfyriwr ddangos eu bod nhw'n cyflawni'r safonau hyn ar gyfer dyfarnu cymhwyster cydnabyddedig, sy'n rhoi cymhwyster i gofrestru fel osteopath. Yn nhermau'r Ddeddf Cydraddoldeb, mae'r gofynion hyn yn cael eu dehongli fel safon cymhwysedd.

49. Nid oes dyletswydd i wneud addasiadau i safon cymhwysedd, ar yr amod bod cyfiawnhad dros gymhwyso'r safon. Fodd bynnag, mae'r ddyletswydd yn berthnasol i'r gweithdrefnau a ddefnyddir gan sefydliadau addysgol er mwyn pennu a all myfyriwr fodloni'r safon cymhwysedd.

50. Rhaid cymryd pob cam rhesymol i sicrhau nad yw myfyriwr sydd ag anabledd neu gyflwr iechyd dan anfantais sylweddol mewn unrhyw brawf, arholiad neu asesiad ymarferol a ddefnyddir i gadarnhau ei fod wedi bodloni'r safon ofynnol - ond nid yw'n ofynnol i sefydliadau addysgol osteopathig amrywio'r safon cymhwysedd ei hun o blaid myfyriwr o'r fath.

51. Mae gan y Cyngor Osteopathig Cyffredinol rwymedigaeth i sicrhau bod *y Safonau Ymarfer Osteopathig*[15] yn nodi dim ond y cymwyseddau perthnasol a dilys sy'n gwbl angenrheidiol ar gyfer ymarfer osteopathig diogel, effeithiol a heb oruchwyliaeth. Yn eu tro, mae rhwymedigaeth ar sefydliadau addysgol osteopathig i sicrhau bod y *Safonau Ymarfer Osteopathig* a'r *Canllawiau ar gyfer Addysg Cyn-gofrestru Osetopathig*[16] yn cyfeirio at gynnwys y cwricwlwm, arholiadau ac asesiadau ac nad ydyn nhw'n rhoi rhwystrau ychwanegol a allai roi myfyrwyr ag anableddau a/neu gyflyrau iechyd dan anfantais sylweddol.

### Dyletswyddau penodol dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010

52. O dan y Ddeddf Cydraddoldeb, mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus gyhoeddi gwybodaeth yn flynyddol am eu gweithwyr (os oes ganddynt fwy na 150 o staff) ac eraill sydd wedi'u heffeithio gan eu polisïau a'u harferion (gan gynnwys myfyrwyr) mewn perthynas â materion cydraddoldeb. Hefyd, mae'n ofynnol iddynt osod a chyhoeddi ar gyfnodau heb fod yn hwy na phedair blynedd, un neu fwy o amcanion penodol a mesuradwy y credant sy'n angenrheidiol i gyflawni unrhyw un o'r pethau sy'n ofynnol gan y ddyletswydd cydraddoldeb gyffredinol.

[15] Fe'u gwelwch i gyd yn: https://standards.osteopathy.org.uk/

[16] Ar gael yn: osteopathy.org.uk/news-and-resources/document-library/training/guidance-for-osteopathic-pre-registration-education

**Cefnogi staff i gyflawni eu cyfrifoldebau**

53. Rhaid hysbysu staff o'u dyletswyddau cyfreithiol a sicrhau eu bod nhw'n ymwybodol o'u cyfrifoldebau i ymgeiswyr a myfyrwyr ag anableddau a/neu gyflyrau iechyd. Mae hyn yn arbennig o bwysig i staff sy'n ymwneud â derbyn, cymorth i fyfyrwyr ac iechyd galwedigaethol, yn ogystal â staff addysgu a chymorth.

54. Mae'n bwysig bod hyfforddiant yn ymestyn y tu hwnt i ddehongliad cul o gyfrifoldebau cyfreithiol y sefydliad addysgol osteopathig trwy fynd i'r afael ag agweddau ehangach ar wahaniaethu ar gydraddoldeb ac anabledd, er enghraifft taclo materion fel stereoteipio a rhagfarn ddiarwybod. Efallai y bydd angen buddsoddi mewn datblygiad unigol, tîm a sefydliadol i sicrhau bod arferion eich sefydliad yn cyd-fynd â'r diwylliant o gydraddoldeb ac amrywiaeth rydych chi'n anelu ato.

55. Dylid cefnogi staff i gydnabod arwyddion cynnar cyflyrau iechyd meddwl, er mwyn sicrhau bod modd cynnig cymorth priodol cyn gynted â phosibl.

56. Fel gyda phob agwedd ar ymarfer cydraddoldeb, gall cynnwys myfyrwyr ag anableddau a/neu gyflyrau iechyd wrth gynllunio a darparu hyfforddiant cydraddoldeb fod yn hynod ddefnyddiol. Mae gwefan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol[17], y cyfeirir ato uchod, yn darparu ystod ddefnyddiol o adnoddau.

57. Efallai y bydd gan sefydliadau addysgol osteopathig yn y Brifysgol, a'r rhai sy'n cynnig graddau wedi'u dilysu gan brifysgol, fynediad at hyfforddiant anabledd ar draws y sefydliad, naill ai yn fewnol neu drwy'r brifysgol ddilysu, a chyfleoedd dysgu rhyngbroffesiynol â phroffesiynau iechyd eraill hefyd, gan ddarparu cyfleoedd i rannu profiadau o gefnogi myfyrwyr ag anableddau.

[17] Gweler canllawiau'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ar ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus: www.equalityhumanrights.com/en/advice-and-guidance/public-sector-equality-duty

## Adran 4: Taith y myfyriwr

58. Mae'r adran hon yn ymdrin â'r materion y dylai sefydliadau addysgol osteopathig eu hystyried ar adegau gwahanol yn ystod taith y myfyriwr. Bydd yn helpu i sicrhau bod yr addysg a'r hyfforddiant osteopathig a ddarperir yn diwallu anghenion myfyrwyr ag anableddau a/neu gyflyrau iechyd, yn bodloni disgwyliadau a gofynion y Cyngor Osteopathig Cyffredinol, ac yn cyd-fynd â rhwymedigaethau cyfreithiol sefydliadau addysgol osteopathig.

### Rhagweld anghenion pobl anabl

59. Dylai pob sefydliad addysgol osteopathig adolygu ei gyfleusterau, ei wasanaethau a'i arferion i nodi lle mae angen gwelliannau ac addasiadau i ddiwallu anghenion pobl ag anableddau a/neu gyflyrau iechyd yn well. Ni ddylid cyfyngu hyn i'r ystâd ffisegol ond dylai gynnwys pob agwedd ar ddarpariaeth.

60. Nid yw'n bosibl nac yn ddymunol darparu rhestr gynhwysfawr o addasiadau rhesymol oherwydd bod pob sefydliad addysgol osteopathig yn unigryw. Dim ond drwy gynnal archwiliad trylwyr o bob agwedd ar ddarpariaeth sefydliad y bydd modd nodi addasiadau angenrheidiol.

61. Mae'r enghreifftiau isod wedi'u cynnwys i ddangos yr ystod o addasiadau sy'n rhan o'r ddyletswydd ragarweiniol:

- darparu gwybodaeth am y cwrs mewn fformatau amgen i sicrhau ei fod yn hygyrch i ystod mor eang â phosibl o ddarpar fyfyrwyr â phosibl
- sicrhau bod deunyddiau marchnata yn ei gwneud yn glir bod croeso i geisiadau gan fyfyrwyr ag anableddau a/neu gyflyrau iechyd
- cynnal archwiliad mynediad a gwneud addasiadau i sicrhau bod llwybrau mynediad cyffredinol ac argyfwng i mewn ac allan o adeiladau yn hygyrch i bobl â symudedd cyfyngedig
- sicrhau bod cyfleusterau craidd – fel toiledau, ystafelloedd cyffredin, llyfrgelloedd a chyfleusterau arlwyo – wedi'u goleuo'n dda, wedi'u harwyddo'n briodol ac yn hawdd eu cyrchu gan fyfyrwyr anabl
- adolygu ac addasu polisïau ac arferion dysgu ac asesu er mwyn sicrhau nad ydynt yn gwahaniaethu yn eu hanfod yn erbyn myfyrwyr anabl
- sicrhau bod nodiadau darlithoedd ac adnoddau dysgu eraill ar gael mewn fformat electronig i'w defnyddio gan, er enghraifft, myfyrwyr â nam ar eu golwg a'r rhai ag anawsterau dysgu penodol sy'n defnyddio meddalwedd gyfrifiadurol gynorthwyol
- Gwella acwsteg darlithfeydd a gosod systemau dolen i helpu myfyrwyr â nam ar eu clyw

- sicrhau nad yw dodrefn, gosodiadau, ffitiadau ac adnoddau dysgu – fel gwasanaethau llyfrgell a chyfrifiaduron, ystafelloedd ymarferol ac offer – yn rhwystr i fyfyrwyr ag anableddau a/neu gyflyrau iechyd ac yn hygyrch iddynt

- sicrhau bod staff yn ddigon gwybodus am eu cyfrifoldebau i helpu i ddileu gwahaniaethu ar sail anabledd

- sicrhau bod staff yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaethau a'r adnoddau arbenigol sydd ar gael i helpu asesu anghenion myfyrwyr sydd ag anabledd neu nam iechyd. Byddai hyn yn cynnwys hyfforddi staff i adnabod arwyddion cynnar cyflyrau iechyd meddwl, er mwyn sicrhau eu bod nhw'n gallu adnabod problemau a chynnig cymorth priodol.

62. Mae'r enghreifftiau hyn yn dangos rhai o'r cyfleusterau, y gwasanaethau a'r arferion y gellir eu gwella er mwyn osgoi rhoi myfyrwyr ag anableddau a/neu gyflyrau iechyd dan anfantais – ond mae'n bwysig pwysleisio, er bod dyletswydd ar 'bobl anabl' yn gyffredinol, bod dyletswydd ar sefydliadau addysgol osteopathig hefyd i sefydlu ac ymateb i anghenion penodol ymgeiswyr a myfyrwyr fel unigolion.

***Enghraifft***

*Mae sefydliad addysgol osteopathig wedi datblygu cynlluniau i uwchraddio ac adnewyddu ystafell addysgu, er mwyn darparu darlithfa gyda chyfleusterau gwell a diweddaraf. Roedden nhw'n ymwybodol bod yr acwsteg yn yr ystafell yn wael, ar ôl cael sylwadau gan ddau fyfyriwr â nam ar eu clyw ei bod hi'n anodd clywed y darlithydd yn yr ystafell. Fel rhan o'r gwaith adnewyddu, gosodwyd dolen sain i gynorthwyo myfyrwyr â nam ar eu clyw sy'n defnyddio cymhorthion clyw. Gosodwyd system sain hefyd, a oedd yn galluogi'r darlithwyr i ddefnyddio meicroffon. Roedd hyn yn cynorthwyo myfyrwyr â nam ysgafn ar eu clyw, ond nad oeddent yn defnyddio cymorth clyw.*

## Recriwtio a dethol

63. Mae'n ddyletswydd ar y sefydliad addysgol osteopathig i beidio â gwahaniaethu yn erbyn rhywun sy'n bodloni'r diffiniad o fod yn 'anabl' at ddibenion y Ddeddf Cydraddoldeb yn y trefniadau a wneir ar gyfer penderfynu pwy ddylai gael cynnig mynediad i gyrsiau maen nhw'n eu cynnig, naill ai yn nhermau unrhyw gynnig a wnaed, neu drwy beidio â derbyn cais am fynediad. Mae hefyd yn ddyletswydd ar y sefydliad i beidio ag aflonyddu ar rywun mewn perthynas â'u hiechyd neu anabledd.

64. Mae'r canllawiau isod yn ymwneud â phrosesau recriwtio a dethol myfyrwyr, ac yn benodol, y camau y gellir eu cymryd i sicrhau bod dull cynhwysol yn cael ei fabwysiadu, ac i osgoi gwahaniaethu yn erbyn ymgeiswyr neu fyfyrwyr ag anableddau a/neu gyflyrau iechyd.

## Marchnata

65. Dylai deunydd cyhoeddusrwydd a gwybodaeth am gyrsiau bwysleisio bod croeso i geisiadau gan bobl ag anableddau a/neu gyflyrau iechyd[18]. Bydd cynnwys straeon a lluniau cadarnhaol o bobl anabl ym maes osteopathi, ac argaeledd y wybodaeth mewn fformatau amgen, yn helpu i ategu'r neges hon o'r cysylltiadau cynharaf oll â darpar ymgeiswyr. O ran cyflyrau iechyd meddwl, dylai sefydliadau addysgol osteopathig gydnabod bod y rhain yn gyffredin, y disgwylir iddynt ddigwydd a bod modd diwallu'r anghenion.

> ***Enghraifft***
>
> *Mae sefydliad addysgol osteopathig yn adolygu ei brosbectws. Gan gofio bod gan ddeg y cant o'i fyfyrwyr ddyslecsia, mae'n hyrwyddo'r ffaith hon yn llawn, ynghyd ag enghreifftiau o'r cymorth sydd ar gael i gefnogi'r myfyrwyr hyn i reoli eu hastudiaethau. Mae enghreifftiau achos gan fyfyrwyr cyfredol a chyn-fyfyrwyr sydd â dyslecsia yn dangos nad yw'r cyflwr hwn yn cael ei ystyried yn rhwystr i lwyddiant academaidd.*

66. Mae'n hanfodol bod ymgeiswyr yn ymwybodol o ofynion deallusol, corfforol, emosiynol a phroffesiynol dilyn rhaglen addysg osteopathig. Gellir gwneud hyn trwy gyferbynnu osteopathi â graddau nad ydynt yn cynnwys hyfforddiant ymarferol ac nad ydynt yn diweddu gyda chofrestru proffesiynol ac ymarfer gofal iechyd annibynnol. Dylai deunydd cyhoeddusrwydd gynnwys cyswllt penodol sy'n gallu cynghori darpar ymgeiswyr am natur a gofynion osteopathi fel proffesiwn a gyrfa, heriau'r cwrs, a'r cymorth sydd ar gael i fyfyrwyr ag anableddau a/neu gyflyrau iechyd.

67. Mae'r rhan fwyaf o sefydliadau addysgol osteopathig yn cynnal diwrnodau agored, gan roi cyfle i ddarpar fyfyrwyr gael cipolwg ar osteopathi ac addysg osteopathig. Mae'r cyfle i siarad â myfyrwyr ar y cwrs ac arsylwi neu gymryd rhan mewn sesiynau ymarferol yn helpu darpar ymgeiswyr i ddeall natur a gofynion corfforol osteopathi yn well, ond hefyd y gefnogaeth sydd ar gael os oes ganddyn nhw anabledd neu gyflwr iechyd. Gall fod yn ddefnyddiol i ddarpar fyfyrwyr gael cyfle i arsylwi ar sesiynau clinig. Er bod llawer yn gallu rhagweld yn hawdd yr addasiadau a'r cymhorthion sydd eu hangen i gefnogi dysgu yn yr ystafell ddosbarth a gwaith theori, mae llai yn debygol o ddeall pa addasiadau allai eu helpu i ddysgu ac arddangos cymwyseddau clinigol, neu pa effaith y gallai hyn ei chael ar gleifion. Mae galluogi darpar fyfyrwyr i ddeall hyd a lled ymarfer osteopathig yn well yn golygu y byddant mewn sefyllfa well i wneud dewis gwybodus am y ffaith ai osteopathi yw'r union yrfa iddyn nhw.

68. Mae'n bwysig peidio gwneud rhagdybiaethau ynghylch a fydd ymgeisydd yn gallu cyflawni i'r safon ofynnol yn y pen draw ar gyfer dyfarnu cymhwyster cydnabyddedig. Fodd bynnag, gall cyfeiriad cynnar at y [*Safonau Ymarfer Osteopathig*](), ac at natur gyffredinol arfer osteopathig, helpu darpar ymgeisydd asesu ei hun yn erbyn yr hyn sy'n ofynnol i gofrestru a dilyn gyrfa mewn osteopathi.

---

[18] Gweler gwefan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol: www.equalityhumanrights.com/private-and-public-sector-guidance/education-providers/higher-education-providers-guidance/admissions/you-must-not-discriminate-when-deciding-who-is-offered-admission-to-your-institution/how-do-i-avoid-discriminating-in-my-admission-arrangements

## Cymhwyso

69. Dylai sefydliadau addysgol osteopathig bwysleisio pa mor bwysig yw i fyfyrwyr fod yn agored ynghylch unrhyw anabledd neu gyflwr iechyd, ac ategu'r ffaith bod cymorth ar gael yn y wybodaeth a ddarperir i ddarpar fyfyrwyr. Fodd bynnag, mae angen taro cydbwysedd pwysig rhwng annog ymgeiswyr i ddarparu gwybodaeth am anabledd neu gyflwr iechyd cyn gynted â phosibl, a hawl ymgeisydd i beidio â gwneud hynny. Gall gwybodaeth am gyrsiau dynnu sylw at fanteision gwneud hynny wrth roi sicrwydd i ymgeiswyr na fydd hyn yn rhagfarnu eu cais, a gaiff ei ystyried ar wahân i unrhyw ystyriaeth o'r addasiadau rhesymol posib sydd eu hangen os cynigir lle iddyn nhw.

70. Gwahoddir myfyrwyr sy'n gwneud cais drwy'r Gwasanaeth Derbyn i Brifysgolion a Cholegau (UCAS) nodi a oes ganddyn nhw anabledd, anghenion dysgu, neu gyflwr meddygol ai peidio, neu nodi nad ydynt yn dymuno darparu'r wybodaeth hon. Mae'n ofynnol i ymgeiswyr ddewis o blith rhestr o opsiynau:

    - dim anabledd
    - nam cymdeithasol/cyfathrebu fel syndrom Asperger / anhwylder sbectrwm awtistig arall
    - dallineb neu nam difrifol ar y golwg nad yw'n cael ei wella gan sbectol
    - byddardod neu nam difrifol ar y clyw
    - salwch neu gyflwr iechyd hirsefydlog fel canser, HIV, diabetes, clefyd cronig y galon, neu epilepsi
    - cyflwr iechyd meddwl, fel anhwylder gorbryder, iselder ysbryd, neu sgitsoffrenia
    - anhawster dysgu penodol fel dyslecsia, dyspracsia neu AD(H)D
    - nam corfforol neu broblemau symudedd, fel trafferth defnyddio'r breichiau neu ddefnyddio cadair olwyn neu faglau
    - anabledd, nam neu gyflwr meddygol heb ei restru uchod
    - dau neu ragor o namau a/neu gyflyrau meddygol sy'n achosi anabledd

71. Yn y lle cyntaf, bydd y wybodaeth hon yn helpu sefydliadau addysgol osteopathig i benderfynu a oes angen unrhyw drefniadau penodol i hwyluso'r broses ddethol, ac yna dechrau trafodaeth gyda'r ymgeisydd ynghylch anghenion ac addasiadau. Mae'r categorïau UCAS hefyd yn rhoi darlun defnyddiol o'r ystod eang o anableddau, anghenion dysgu a chyflyrau iechyd y gall sefydliadau addysgol osteopathig ddod ar eu traws ac y gallai fod angen addasiadau ar eu cyfer – ond nid oes ac ni all fod rhestr o anableddau, anghenion dysgu neu gyflyrau iechyd sy'n cael eu hystyried yn anghydnaws ag osteopathi. Rhaid asesu pob ymgeisydd fel unigolyn. Mater i bob sefydliad addysgol yw penderfynu a ddylid derbyn rhywun i'w gwrs ai peidio yn seiliedig ar asesu a fyddai'n gallu bodloni'r *Safonau Ymarfer Osteopathig* gyda addasiadau rhesymol yn y pen draw.

72. Mae osteopathi yn cynnwys asesiad annibynnol, diagnosis, cynllunio triniaeth, ac ymyriadau â llaw. Mae diogelwch cleifion yn hollbwysig. Mae'r gofynion hyn wedi'u crynhoi yn y *Safonau Ymarfer Osteopathig*[19], a'r *Canllawiau ar gyfer Addysg Cyn-gofrestru Osteopathig*[20]. Bydd achosion lle nad oes modd dod i gasgliad arall ond hyn - y ffaith na fydd darparu cymorth, cymhorthion ac addasiadau rhesymol yn ddigonol i helpu'r ymgeisydd i gyflawni'n ddigon da i gyrraedd safon cymhwysedd ar gyfer mynediad i'r proffesiwn. Ni fydd sefydliadau addysgol osteopathig yn torri eu rhwymedigaethau cyfreithiol na disgwyliadau a gofynion cyffredinol y Cyngor Osteopathig os byddant yn dod i'r casgliad hwn, ar ôl rhoi ystyriaeth briodol i'r holl addasiadau rhesymol posibl.

73. Mae cyfiawnhad dros osod meini prawf mynediad a chynnal proses ddethol gan nad yw derbyn myfyriwr - boed yn anabl neu heb anabledd - sydd heb siawns dda o gwblhau'r cwrs, o fudd i neb. Felly, rhaid i staff derbyn fod yn realistig wrth benderfynu pa addasiadau sy'n rhesymol ac wrth asesu a ydyn nhw wirioneddol yn meddwl bod gobaith trwy ganiatau i fyfyrwyr fodloni'r safon cymhwysedd a gwneud gwaith ymarfer annibynnol heb oruchwyliaeth.

74. Mae sefydliadau addysgol osteopathig wedi derbyn llawer o fyfyrwyr ag anableddau a chyflyrau iechyd ar eu cyrsiau, ac wedi darparu ystod eang o addasiadau sydd wedi helpu myfyrwyr i gwblhau cwrs yn llwyddiannus. Mae'r rhain yn cynnwys myfyrwyr ag anawsterau dysgu (megis dyslecsia), namau synhwyraidd (gweledol a chlywedol), anableddau corfforol (megis nam symudedd), cyflyrau iechyd (fel canser), amrywiaeth o gyflyrau hirdymor (gan gynnwys diabetes ac epilepsi) ac ystod o gyflyrau iechyd meddwl. Ym mhob achos, aseswyd myfyrwyr fel unigolion a rhoddwyd addasiadau rhesymol ar waith i ddiwallu eu hanghenion.

75. Mae ceisiadau a arweiniodd at benderfynu nad oedd addasiadau yn ymarferol yn llai cyffredin, ond mae rhai o'r datganiadau meincnod[21] sy'n debygol o fod yn hanfodol mewn penderfyniadau o'r fath wedi'u nodi yn y tabl isod:

| Enghreifftiau o ddatganiad meincnod | Maes i'w hystyried |
|---|---|
| Dewis a symud rhwng ddulliau cyfathrebu gwahanol â chleifion a chydweithwyr (osteopathiaid, gweithwyr iechyd proffesiynol ac eraill) wrth ymrwymo i werthoedd ac ystyriaethau moesegol | arwain at ystyried sgiliau cyfathrebu ymgeisydd |

[19] Ar gael yn: https://standards.osteopathy.org.uk/

[20] Y cyfan yn: www.osteopathy.org.uk/news-and-resources/document-library/training/guidance-for-osteopathic-pre-registration-education

[21] QAA Subject Benchmark Statement for Osteopathy, 2015, ar gael yn: www.qaa.ac.uk /en/Publications/Documents/SBS-Osteopathy-15.pdf

| | |
|---|---|
| Sgiliau perthnasedd, integreiddio ac ymateb i wybodaeth a data a gafwyd trwy ddulliau llafar a di-lafar | |
| Defnyddio teimladau cyffyrddol ddetholus fel rhan o'r broses werthuso | arwain at ystyried gallu ymgeisydd i asesu risg sy'n deillio o arsylwadau sy'n gofyn am graffter synhwyraidd |
| Dangos lefel uchel o sgiliau cyffyrddol | |
| Cynnal asesiad biofecanyddol statig, gweithredol a goddefol effeithiol o'r claf | |
| Dangos ymwybyddiaeth o'r ystod eang o ddulliau technegol osteopathig anuniongyrchol ac uniongyrchol | arwain at ystyried galluoedd corfforol ymgeisydd i ddatblygu a chymhwyso'r ystod hon |
| Addasu techneg osteopathig a chyfiawnhau ei ddefnydd mewn perthynas â'r adborth cyffyrddol a gafwyd o feinweoedd y claf | |
| Gofalu am eu hiechyd a'u lles eu hunain a dilyn y gweithdrefnau priodol i reoli clefydau trosglwyddadwy | arwain at ystyried hunanymwybyddiaeth ymgeisydd |
| Gwerthuso ymchwil a chanfyddiadau eraill yn feirniadol ynghylch effeithiolrwydd a chymhwyso ymyriadau osteopathig i broblemau penodol cleifion, a honiadau therapiwtig disgyblaethau gofal iechyd eraill | arwain at ystyried sgiliau trin gwybodaeth ymgeisydd |
| Sgiliau defnyddio technoleg gwybodaeth sy'n cyd-fynd â rheoli arferion osteopathig modern yn effeithiol ac effeithlon, gan gynnwys y gallu i drin data meintiol ac ansoddol ar gyfer archwilio a dibenion cysylltiedig | |

**Dewis a dethol**

76. Dylid asesu pob cais yn erbyn yr un meini prawf mynediad. Dylai sefydliadau addysgol osteopathig sicrhau nad yw'r meini prawf - a'r ffordd mae eu staff yn eu defnyddio - yn gwahaniaethu yn erbyn ymgeiswyr sy'n debygol o fod yn 'anabl' at ddibenion y Ddeddf Cydraddoldeb. Fodd bynnag, er y gallai fod angen i sefydliadau addysgol ystyried cynnig fformatau amgen i alluogi rhywun i wneud cais i'w cwrs, nid oes rhaid iddynt amrywio lefel y cyrhaeddiad blaenorol sydd ei angen. Mae hyn oherwydd bod meini prawf mynediad yn cyfrif fel safonau cymhwysedd sydd wedi'u heithrio o'r ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol.

77. Mae cyfweliadau'n cael eu defnyddio i asesu ymgeiswyr i gael mynediad i addysg a hyfforddiant osteopathi. Fel unrhyw brawf dethol, os defnyddir cyfweliadau fel rhan o'r broses ddethol, rhaid i hyn fod yn berthnasol i bob ymgeisydd.

78. Dylai sefydliadau addysgol osteopathig bennu ymhell cyn y cyfweliad a oes angen unrhyw addasiadau rhesymol ai peidio i helpu'r ymgeisydd i gyrchu a chymryd rhan llawn yn y broses. Fel camau eraill y broses ddethol, mae'n bwysig gofyn am ofynion yr ymgeisydd yn hytrach na chanolbwyntio ar anabledd neu gyflwr iechyd.

79. Ni ddylai'r cyfweliad wahaniaethu rhwng ymgeiswyr anabl a rhai nad ydynt yn anabl. Dylai cwestiynau cyfweliad fod yn seiliedig ar feini prawf gwrthrychol a dylid eu cyflwyno'r un fath i bob ymgeisydd. Dylai anabledd neu gyflwr iechyd ymgeisydd fod yn amherthnasol i'r asesiad hwn ac ni ddylai fod yn destun trafodaeth yn ystod y cyfweliad, cyhyd ag y bo modd. Er nad yw'r Ddeddf Cydraddoldeb yn gwahardd cwestiynau am nam ymgeisydd ar yr amod eu bod yn ymwneud â gofyniad yr ymgeisydd am addasiadau rhesymol na'i allu i fodloni safonau cymhwysedd y cwrs, dylid defnyddio'r meini prawf cyfweld a ddefnyddir i benderfynu ar addasrwydd ymgeisydd fel pe bai addasiadau rhesymol wedi'u gwneud. Ni ddylai ymarferoldeb neu resymoldeb addasiadau o'r fath fod yn fater i'r panel cyfweld, a dylid eu hystyried dim ond ar ôl penderfynu cynnig lle i ymgeisydd.

80. Dylid cadw cofnodion ar bob cam o'r broses i gyfiawnhau a rhoi cyfrif am benderfyniadau. Dylai'r rhain gynnwys nodiadau cyfweliad diduedd gydag asesiadau ysgrifenedig yn erbyn pob maen prawf cyfweliad.

81. Dylai bod gan sefydliadau addysgol osteopathig proses glir ar gyfer ymdrin â chwynion. Dylid sicrhau bod manylion y broses ar gael mewn fformatau hygyrch.

**Paratoi ar gyfer derbyn**

| ***Enghraifft*** |
| --- |
| *Ar ôl datgelu bod ganddo nam ar ei olwg, mae ymgeisydd yn cael gwahodd i gyfweliad mewn sefydliad addysgol osteopathig. Caiff ei gyfweld yn yr un modd â phob ymgeisydd arall, gan ddefnyddio'r un meini prawf. Trafodir ei anabledd ar ddiwedd y cyfweliad, ond dim ond yng nghyd-destun pa addasiadau rhesymol y mae'n teimlo a allai fod yn angenrheidiol i'w helpu i ymdopi â'i astudiaethau, a sut y bydd yn gallu dangos y Safonau Ymarfer Osteopathig.*<br><br>*Ar sail ei gymwysterau academaidd a'i berfformiad yn y cyfweliad, cynigir lle i'r ymgeisydd, yn amodol ar ystyried ymarferoldeb a rhesymoldeb yr addasiadau gofynnol.* |

82. Dylai'r broses o gytuno ar addasiadau ddechrau cyn gynted ag y cynigir lle i ymgeisydd. Dylai gynnwys y myfyriwr yn uniongyrchol a chael ei wneud gan staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol. Efallai y bydd angen cyngor ac arweiniad arbenigol hefyd, er enghraifft gan swyddog anabledd y brifysgol, gweithiwr iechyd galwedigaethol, seicolegydd addysgol neu sefydliad anabledd arbenigol.

83. Dylai sefydliadau addysgol osteopathig drafod gyda'r ymgeisydd natur a maint yr addasiadau rhesymol sy'n debygol o fod eu hangen i'w helpu i gyflawni pob agwedd ar y cwrs, i allu dangos cyflawni'r safon ar gyfer dyfarnu cymhwyster cydnabyddedig, ac yn y pen draw ymarfer fel osteopath annibynnol. Dylid rhoi cyfle i fyfyrwyr siarad â staff cymorth myfyrwyr neu swyddog anabledd prifysgol am y cymorth ariannol personol sydd ar gael, er enghraifft y Lwfans Myfyrwyr Anabl[22].

84. Mae'n debygol y bydd gan ddarpar fyfyrwyr ag anabledd neu gyflwr iechyd hirdymor ymdeimlad brwd o'u galluoedd a bydd llawer wedi datblygu amrywiaeth o strategaethau ar gyfer rheoli a digolledu am gyfyngiadau swyddogaethol. O'r herwydd, mae myfyrwyr yn aml mewn sefyllfa dda i gynnig cyngor am y mathau o gymorth ac addasiadau y bydd eu hangen. Fodd bynnag, dyletswydd y sefydliad addysgol osteopathig yw pennu pa addasiadau sydd angen eu gwneud, felly dylai staff fod mewn sefyllfa i allu asesu a threfnu ar gyfer cymhorthion a chymorth priodol. Mewn rhai achosion, efallai y bydd angen asesiad arbenigol i ganfod yn union pa lefel o gymorth fydd ei angen neu, er enghraifft, i ddarparu cadarnhad ffurfiol o anhawster dysgu penodol fel sy'n ofynnol os bydd myfyriwr yn penderfynu gwneud cais am y Lwfans Myfyrwyr Anabl.

[22] www.gov.uk/disabled-students-allowances-dsas/overview

85. Mae'n gyffredin i ymgeiswyr sydd wedi cael cynnig lle i gwblhau holiadur asesiad iechyd. Nid yw hyn yn gwahaniaethu yn erbyn myfyrwyr ag anableddau a/neu gyflyrau iechyd oherwydd bod y gofyniad yn berthnasol i bob ymgeisydd ac mae'n fesur y gellir ei gyfiawnhau er budd amddiffyn y cyhoedd a chleifion. Ei brif bwrpas yw peidio â cheisio gwybodaeth am gyflyrau iechyd neu anableddau ond nodi materion a allai olygu bod cleifion, myfyrwyr eu hunain, neu eraill yn agored i risg ddiangen. O'r herwydd, mae fel arfer yn cael ei gwblhau'n gyfrinachol gan staff derbyn ac, os yw'n briodol, gweithwyr iechyd galwedigaethol proffesiynol. Fodd bynnag, mae'n gyfle arall i fyfyrwyr ddarparu gwybodaeth am anabledd neu gyflwr iechyd.

86. Dylid cymryd pob cam rhesymol i nodi a gweithredu'r addasiadau sy'n ofynnol ond mewn rhai achosion gellir dod i'r casgliad nad oes modd cyflawni hyn yn rhesymol, neu na fyddai'r ymgeisydd yn gallu cyflawni'r safon ar gyfer dyfarnu cymhwyster cydnabyddedig hyd yn oed gydag addasiadau. Yn amlwg, mae angen cyfleu'r casgliad hwn i'r ymgeisydd mewn modd sensitif, yn ddelfrydol gyda chyngor ar gyrsiau amgen posibl y gallai'r ymgeisydd eu hystyried.[23]

## Cyfnod ymsefydlu

87. Mae sefydlu yn rhoi cyfle i dynnu sylw at y cymorth sydd ar gael i fyfyrwyr os ydyn nhw'n dod ar draws problemau gyda'u hiechyd neu anabledd yn ystod y cwrs, ac i wahodd myfyrwyr nad ydynt wedi gwneud hynny ymhellach i ddarparu gwybodaeth am effaith unrhyw anableddau neu gyflyrau iechyd sydd ganddyn nhw.

88. Dylai sefydliadau addysgol osteopathig fod yn ymwybodol bod rhai myfyrwyr yn debygol o fychanu eu hanawsterau, efallai oherwydd eu bod nhw'n poeni am sut y gallai eu hanabledd neu gyflwr iechyd ymddangos i eraill, sy'n golygu na fyddant efallai'n cael cymorth priodol yn gynnar yn y cwrs. Yn aml, nid yw myfyrwyr sydd â salwch meddwl yn ystyried eu hunain yn anabl ond eto mae'n ddigon posibl y cânt eu diogelu o dan y Ddeddf Cydraddoldeb a dylent gael yr un ystyriaethau â myfyrwyr ag anabledd mwy gweladwy.

## Cyfrinachedd

89. Er mwyn i fyfyrwyr osteopathig deimlo'n gyfforddus yn gofyn am gymorth os oes ganddyn nhw gyflwr iechyd neu anabledd, mae'n bwysig eu bod nhw'n deall mater cyfrinachedd y wybodaeth maen nhw'n ei darparu. Dylai sefydliadau addysgol osteopathig fod â pholisi cyfrinachedd sy'n nodi:

- pwy fydd yn derbyn y wybodaeth a ddarperir gan y myfyriwr
- sut fydd gwybodaeth y myfyriwr yn cael ei defnyddio
- achosion lle gellir torri cyfrinachedd.

---

[23] Gweler hefyd: *Quality Assurance Agency for Higher Education, Quality Code for Higher Education,* manylion ar gael yn: www.qaa.ac.uk/assuring-standards-and-quality/the-quality-code

Mewn rhai amgylchiadau, dylai myfyrwyr allu penderfynu peidio â rhannu gwybodaeth am eu hiechyd roedden nhw wedi cytuno i'w rhannu o'r blaen. Bydd angen caniatâd yr ymgeisydd ar gyfer addasiadau rhesymol sy'n nodi'r anabledd neu'r cyflwr iechyd. Mewn amgylchiadau lle teimlir bod angen torri cyfrinachedd, dylid trafod hyn gyda'r myfyriwr cyn cymryd unrhyw gamau lle bo hynny'n ymarferol bosib.

Fel ym mhob agwedd ar drafodaeth gydag ymgeiswyr a myfyrwyr am faterion anabledd neu iechyd, mae angen sensitifrwydd. Mae hyn yn ategu pwysigrwydd hyfforddiant i staff recriwtio a dethol. Dylid torri cyfrinachedd y myfyriwr dim ond pan mae hyn yn angenrheidiol er mwyn diogelu'r myfyriwr neu eraill rhag y risg o niwed difrifol.

***Enghraifft***

*Mae un sefydliad addysgol osteopathig yn cynnig sgrinio i brofi am ddyslecsia ar gyfer pob myfyriwr yn ystod y cyfnod sefydlu. Mae hyn wedi datgelu cyfradd llawer uwch o ddyslecsia heb ddiagnosis na'r disgwyl. Nid yw'n cael ei ystyried yn arfer gwahaniaethol oherwydd ei fod yn berthnasol i bob myfyriwr a'i fwriad yw helpu i roi cymorth priodol ar waith ac addasiadau addas i'w gwneud – mewn geiriau eraill, mae cyfiawnhad dros hynny fel ffordd gymesur i gyrraedd y nod cyfreithlon.*

## Gwneud addasiadau i ddulliau dysgu, addysgu ac asesu

90. Mae sefydliadau addysgol osteopathig wedi cael cryn brofiad o wneud addasiadau a oedd yn galluogi myfyrwyr ag anableddau a chyflyrau iechyd i gwblhau hyfforddiant, graddio, cofrestru ac ymarfer osteopathig. Mae'r adran hon yn tynnu sylw at ystyriaethau ac enghreifftiau dangosol o'r sbectrwm eang o addasiadau a all fod o fudd i fyfyrwyr ag anableddau a/neu gyflyrau iechyd.[24]

91. Mae'n arfer da gofyn i'r myfyriwr beth mae'n ei ystyried sydd ei angen, ond nid ei gyfrifoldeb e yw awgrymu pa addasiadau sydd eu hangen. Does dim rhaid i sefydliadau addysgol osteopathig wneud pob addasiad y mae myfyriwr yn gofyn amdano, ond ni allant hawlio bod addasiad yn afresymol oherwydd ei fod yn anghyfleus neu'n ddrud.

92. Gall penderfynu beth sy'n rhesymol fod yn anodd. Roedd Adran 3 yn amlygu rhai o'r ystyriaethau mwyaf arwyddocaol fel:

- pa mor effeithiol fydd yr addasiad wrth oresgyn yr anhawster
- a yw'n ymarferol gwneud yr addasiad
- pa gostau ariannol a chostau eraill sy'n gysylltiedig
- faint o aflonyddwch fydd yr addasiad yn ei achosi
- cymorth ariannol neu gymorth arall.

[24] Gweler hefyd: Equality Challenge Unit, 2010, *Managing reasonable adjustments in higher education*, Llundain ECU: www.ecu.ac.uk/publications/managing-reasonable-adjustments-in-higher-education

***Enghraifft***

*Mae Hannah, myfyriwr blwyddyn gyntaf, yn datgelu i'r swyddog lles myfyrwyr bod ganddi anhwylder bwyta rhwng 15 a 18 oed ac o ganlyniad, mae ganddi lai o ddwysedd asgwrn. Mae'r swyddog lles myfyrwyr yn ei chynghori y byddai'n amhriodol iddi brofi technegau osteopathig penodol yn ystod dosbarthiadau ymarferol a allai beryglu ei diogelwch ac achosi risg o dorri asgwrn. Mae'n gofyn am ei chaniatâd i ddweud wrth y tîm addysgu ymarferol am ei chyflwr, ac yn rhoi sicrwydd bod unrhyw staff sy'n ymwybodol o hyn hefyd yn dilyn polisi cyfrinachedd yr Ysgol. Mae'r ffaith nad yw'r myfyriwr yn gallu cyflawni rhai technegau penodol, wrth gwrs, yn tynnu sylw at y ffaith bod problem, ond hi fydd yn penderfynu a yw'n datgelu'r rhesymau am hyn i'w chydweithwyr. Mae Hannah yn hapus i roi caniatâd o'r fath, ac mae'r tîm addysgu yn cael gwybod.*

93. Mae un ystyriaeth o resymoldeb yn ymwneud â risg. Nid yw'r Ddeddf Cydraddoldeb yn diystyru deddfwriaeth iechyd a diogelwch, felly ni ddylai'r myfyriwr nac unrhyw un arall fod yn agored i risgiau i'w iechyd neu ddiogelwch o ganlyniad i addasiad sy'n gysylltiedig ag anabledd. Ar y llaw arall, mae pobl anabl weithiau'n protestio eu bod wedi'u heithrio o weithgareddau neu'n cael eu hatal rhag cymryd risgiau y mae pobl nad ydynt yn anabl yn eu cymryd yn ganiataol. Felly, dylai myfyriwr sydd ag anabledd neu gyflwr iechyd ddweud eu dweud am yr hyn sy'n lefel dderbyniol o risg iddo yng ngweithgareddau beunyddiol addysg a hyfforddiant osteopathig. Er ei bod hi'n bwysig sicrhau nad yw myfyrwyr yn agored i fwy o risg yn ystod hyfforddiant oherwydd eu hanabledd neu gyflwr iechyd, nid yw'n ddymunol nac yn angenrheidiol gwneud addasiadau i ddileu neu leihau'r holl risg.

94. Mae'n iawn canolbwyntio ymdrechion ar nodi'r addasiadau a all ddiwallu anghenion myfyriwr ag anabledd neu gyflwr iechyd orau, ond ni ddylid gwneud hyn er mwyn osgoi ystyried eu heffaith ar eraill. Mae'n bwysig i sefydliadau addysg osteopathig gydnabod bod eu dyletswydd gofal yn ymestyn nid yn unig i fyfyrwyr ag anableddau, ond i gorff ehangach o fyfyrwyr hefyd. Efallai y bydd yn rhesymol disgwyl i fyfyrwyr eraill oddef lefel o anghyfleustra i ddarparu ar gyfer addasiadau i fyfyriwr, ond efallai na fydd yn rhesymol disgwyl i sefydliad addysgol osteopathig wneud addasiad sy'n rhoi myfyrwyr eraill dan anfantais sylweddol a pharhaus. Serch hynny, mewn llawer o achosion, mae profiad yn dangos mai myfyrwyr eraill sydd wedi darparu'r cymorth a'r cymorth a helpodd rhywun ag anabledd neu gyflwr iechyd i gwblhau ei hyfforddiant yn llwyddiannus.

95. Mae'n hanfodol bod yr addasiadau a roddwyd ar waith yn cael eu cyfleu'n briodol i'r myfyriwr, ac yn cael eu cyfleu mewn fformat hygyrch. Yn nhermau'r Ddeddf Cydraddoldeb, efallai bydd methu â gwneud myfyriwr yn ymwybodol o'r addasiadau a wnaed yn cael ei ystyried ddim gwell na pheidio â gwneud unrhyw addasiadau o gwbl. Os bu deialog dda gyda'r myfyriwr cyn cael mynediad i'r cwrs ac yn ystod wythnosau cynnar yr hyfforddiant, ni ddylai 'unrhyw bethau annisgwyl' godi oherwydd bydd addasiadau wedi'u trafod, eu cytuno a'u rhoi ar waith. Yna dylid adolygu addasiadau yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn effeithiol.

96. Er mai bwriad addasiadau yw cael gwared ar rwystrau neu wneud iawn am anfanteision sy'n deillio o anabledd gan eu bod yn ymwneud â dysgu ac arddangos cymhwysedd proffesiynol, ni ddylai hyn arwain at ostwng y trothwy disgwyliad ar gyfer ymarfer ymreolaethol. Nid yw addasiadau rhesymol yn berthnasol i'r safon cymhwysedd ei hun - mae hyn yn hollbwysig mewn proffesiwn sy'n seiliedig ar ymarfer lle mae cleifion yn ymddiried yn ymddygiad moesegol, cymhwysedd technegol ac arbenigedd clinigol yr ymarferydd.

97. Mae addasiadau i addysgu, dysgu ac asesu yn niferus ac amrywiol. Mae rhai o'r addasiadau mwyaf cyffredin yn cynnwys:

- addasiadau i'r *amgylchedd ffisegol*, yn fewnol ac yn allanol, i wella mynediad at gyfleusterau a'u defnyddio, ac mae'n cynnwys addasiadau hefyd i nodweddion fel goleuo ac inswleiddio sain
- addasiadau *dysgu ac addysgu,* gan gynnwys darparu gwybodaeth mewn amrywiaeth o fformatau gweledol, sain ac electronig, ynghyd â'r technolegau cynorthwyol cysylltiedig i fanteisio'n llawn arnynt
- addasiadau *cymorth dynol*, ar ffurf hyfforddiant a mentora a chymorth tiwtorial ychwanegol
- *cymryd rhywbeth i ystyriaeth* er enghraifft drwy ymestyn terfynau amser, caniatáu absenoldebau, darparu seibiannau mewn sesiynau addysgu, neu drwy lacio rheoliadau, er enghraifft caniatáu i fyfyriwr gario, storio ar y safle a gweinyddu meddyginiaeth angenrheidiol
- drwy ddarparu *offer/cyfarpar*, er enghraifft i gefnogi dysgu drwy gymorth cyfrifiadur, meddalwedd adnabod llais a darllenwyr sgrin, ac ar ffurf gliniaduron a dyfeisiau llaw ar gyfer cymryd nodiadau
- drwy hwyluso mynediad at *adnoddau*, er enghraifft ar gyfer prynu gwerslyfrau i'w defnyddio gartref i helpu i frwydro yn erbyn y blinder sy'n gysylltiedig â theithiau rheolaidd i'r llyfrgell, ac ar gyfer defnyddio tacsis ar ôl triniaethau gofal iechyd penodol
- i *arholiadau*, er enghraifft wrth ddylunio a chyflwyno papurau arholiad, drwy ddarparu amser ychwanegol a chaniatáu seibiant gorffwys, dileu cosbau am sillafu termau annhechnegol yn wael, gramadeg ac atalnodi, neu ganiatáu cyfrifiaduron gyda gwirwyr sillafu, trefnu ystafelloedd a goruchwyliaeth ar wahân, a chaniatáu defnyddio darllenydd neu sgriptiwr
- *i asesiadau ymarferol*, drwy ganiatáu sesiynau ymarfer ychwanegol, mwy o amser i'r myfyriwr ddod i arfer â'r lleoliad neu gyfweliad, asesu a chofnodi gwybodaeth cleifion, neu ddefnyddio dyfais recordio ar gyfer trawsgrifio dilynol, drwy ganiatáu addasiadau i drefniant ffisegol a nodweddion yr ardal archwilio a thriniaeth – megis gofod ychwanegol neu oleuadau penodol – a chaniatáu defnyddio cymhorthion i hwyluso triniaeth

- darparu *cymorth ychwanegol*, er enghraifft ar ffurf tiwtorials un i un neu gyfarwyddyd clinig ychwanegol, neu drwy ddysgu sgiliau astudio a thechnegau dysgu, nodi 'cyfaill' myfyriwr, neu gynnig mentora parhaus neu gymorth cwrs-hir gan diwtor personol, cwnselydd myfyrwyr neu swyddog anabledd.

98. Mae rhai addasiadau wedi dod yn arfer safonol, ac mae modd eu cyflwyno'n gyflym i fyfyrwyr ag anabledd dealladwy, gan ddarparu mantais syml ac uniongyrchol, ond ni ddylai'r ffaith bod addasiad ar gael yn hawdd amharu ar yr egwyddor bod gan bob myfyriwr yr hawl i ystyried eu hanghenion yn unigol.

99. Yn aml mae'n haws gwneud addasiadau i fyfyrwyr ag anabledd sy'n amlwg, yn barhaus ac yn gymharol sefydlog – fel nam ar y clyw neu symudedd cyfyngedig. Gall fod yn fwy heriol diwallu anghenion myfyrwyr sydd â chyflyrau anweledig neu amrywiol. Mae angen gofal i gydnabod ac ymateb yn briodol i gefnogi myfyrwyr pan fydd eu hanabledd neu gyflwr iechyd yn datblygu ar ganol y cwrs neu'n dilyn llwybr ansicr neu episodig ei natur, neu sy'n fwy agored i'r pwyntiau straen anochel sy'n gynhenid mewn unrhyw gwrs.

*Roedd senario heriol a ddyfynnwyd gan sawl sefydliad addysgol osteopathig yn ymwneud â myfyrwyr â chyflyrau hirdymor oedd yn weddol sefydlog o'r blaen, a oedd yn cynyddu'n foddhaol gydag addasiadau neu hebddynt, ond y tarfwyd ar eu cydbwysedd wrth i'w cyflwr, neu'r dull o'i drin neu ei reoli, newid. Gall dod o hyd i feddyginiaeth newydd neu well – lle bydd dosau neu gyfyngiadau gwahanol yn cael eu profi - darfu ar hynt y myfyriwr ac mae angen eu trin yn sensitif gan diwtoriaid, yn anad dim i gydnabod ac ymateb i amrywiadau mewn ymddygiad, blinder a'r gallu i ddysgu. Mae angen i diwtoriaid fod yn barod i wneud addasiadau ar sail hyblyg nes bod cyflwr iechyd y myfyriwr dan reolaeth unwaith eto. Dylai sefydliadau addysgol osteopathig ystyried anghenion hyfforddi staff wrth gydnabod ymddygiad o'r fath.*

100. Mae her gysylltiedig yn ymwneud â'r myfyrwyr hynny nad oes ganddynt ddigon o grebwyll i natur neu effaith eu hanabledd, neu sydd â nam ar eu dealltwriaeth ac, o ganlyniad, yn methu â chymryd y feddyginiaeth benodol sy'n eu helpu i weithredu'n effeithiol. Gall sefyllfa debyg godi gyda myfyrwyr sydd â nam corfforol hirdymor ac sydd, am unrhyw reswm, yn anghofio neu'n dewis peidio â chymryd meddyginiaeth yn unol â'r presgripsiwn. Gall cydymffurfiaeth wael â threfn driniaeth arwain at ailwaeledd neu bwl newydd o symptomau a all beryglu gallu swyddogaethol a gallu myfyriwr i gymryd rhan lawn yn y cwrs.

101. Lle gellir gwneud addasiadau i helpu myfyrwyr yn y sefyllfaoedd hyn, er enghraifft trwy ragweld effaith bosibl pwyntiau straen fel arholiadau ac asesiadau, a thrwy drefnu ymlaen llaw am gymorth ychwanegol, dylid rhoi'r rhain ar waith. Bydd bod yn effro i'r arwyddion rhybudd cynnar, fel atgyfodi symptomau neu newid mewn ymddygiad, hefyd yn eich helpu i ymyrryd yn gynnar er mwyn achub y blaen ar unrhyw argyfwng, darparu cymorth ac arweiniad a gwneud addasiadau, fel cytuno ar estyniadau i aseiniadau neu batrwm presenoldeb gwahanol.

102. Mae'n bosibl y gall iechyd myfyriwr ddirywio'n raddol ond yn ddi-ffael i'r pwynt lle nad yw addasiadau bellach yn ddigon i'w alluogi i barhau â'i hyfforddiant. Mewn rhai achosion, gellir trafod tarfu ar hyfforddiant sy'n ddigon hir i'r myfyriwr adennill lefel o iechyd sy'n ddigonol i ailymuno â'r cwrs a pharhau â'i addysg. Dylai'r myfyriwr ei hun fod yn rhan o benderfyniadau ynglŷn â ddylai gymryd amser i ffwrdd o'r cwrs. Gellir defnyddio gwasanaethau iechyd galwedigaethol. Dylai'r sefydliad addysg osteopathig esbonio'n gwbl glir pam ddylai'r myfyriwr gymryd amser allan, a beth y disgwylir i'r myfyriwr ei wneud yn ystod y cyfnod hwn. Hefyd, dylid ystyried sut fydd y myfyriwr yn ailymuno â'r cwrs yn ddiweddarach.

103. Bydd adegau pan fydd y sefydliad addysgol osteopathig a'r myfyriwr yn anghytuno ai cymryd amser i ffwrdd o astudiaethau yw'r cam cywir. Mewn amgylchiadau o'r fath, a phan nad yw trafodaethau'n arwain at ffordd gytûn ymlaen, gellir cychwyn proses addasrwydd i ymarfer er mwyn penderfynu ar ddull gweithredu teg ac annibynnol – gweler paragraffau 108-110.

104. Mewn achosion prin, efallai na fydd dewis arall ond i'r myfyriwr dynnu'n ôl o'r cwrs.

***Enghraifft***
*Mae tri myfyriwr osteopatheg yn rhannu tŷ gyda'i gilydd. Yng nghanol Blwyddyn 2, mae dau o'r cyd-letywyr yn sylweddoli'n raddol fod y trydydd myfyriwr, Lucy, yn arddangos arwyddion cynyddol o anhwylder gorfodaeth obsesiynol (OCD) – glanhau ac ail-lanhau'n gyson, mynnu bod cynnwys yr aelwyd yn cael ei drefnu mewn ffordd benodol, gwirio ac ailwirio bod y tŷ wedi'i gloi. Mae ymddygiad Lucy yn arwain at densiwn rhyngddyn nhw, sy'n mynd o ddrwg i waeth wrth i straen cyffredinol yr arholiadau nesáu. Un noson, mae pethau'n dod i fwcl dros fater bach domestig, pan mae Lucy yn gorymateb yn llwyr ym marn y lleill, ac wedi'i llethu'n llwyr. Wrth i bethau dawelu, mae Lucy ddagreuol yn cyfaddef bod ganddi broblemau iechyd yn ei harddegau a chyn ei harholiadau Safon Uwch, ac iddi fod dan ofal seiciatrydd ymgynghorol, a oedd wedi rhoi meddyginiaethau ar bresgripsiwn iddi a chyrsiau CBT, a fu o gymorth mawr iddi deimlo dan reolaeth; aeth ymlaen i sicrhau canlyniadau da yn arholiadau terfynol yr ysgol. Wrth symud i ddilyn cwrs osteopathi, roedd y cwrs CBT wedi dod i ben ac nid oedd ar feddyginiaeth mwyach, a hithau heb weld ei hymgynghorydd ers dwy flynedd a mwy. Gall deimlo ei hen batrymau ymddygiad yn dychwelyd ac mae wedi bod i weld ei meddyg teulu newydd yn lleol, ond mae'n dal i aros am apwyntiad i weld cwnselydd. Mae Lucy yn dweud wrth ei chyd-letywyr ei bod hi'n teimlo dan straen ac yn teimlo ei bod hi'n cael trafferth ymdopi yn gyffredinol. Mae ei chyd-letywyr yn ei darbwyllo i siarad â swyddog lles myfyrwyr y coleg am ei chyflwr meddwl presennol a'i phroblemau iechyd yn y gorffennol, ac mae'n gwneud hynny. Yn y coleg, awgrymir ei bod hi'n cymryd peth amser i ffwrdd i gael y cymorth sydd ei angen arni, ac mae'n dychwelyd at ei rhieni am chwe wythnos - yn ystod yr amser hwnnw, mae'n derbyn triniaeth yn y ganolfan lle cafodd ei thrin o'r blaen. Wedi amser i ffwrdd, mae Lucy yn canfod ei bod yn gallu dychwelyd yn well o lawer ac yn gweithio ar strategaethau i leihau ei gorbryderon a gwirio obsesiynol. Hefyd, mae hi wedi bod yn astudio i ryw raddau yn ystod ei hamser i ffwrdd, ond gyda chymorth ei meddygon, mae'n cael estyniad gan y coleg fel y gall gymryd ei hasesiadau Blwyddyn 2 ym mis Awst, yn hytrach na mis Mehefin.*

## Dychwelyd i gwrs

105. Pan fydd myfyrwyr yn cymryd amser i ffwrdd o gwrs, mae'n bwysig bod eu dychweliad yn cael ei drin yn sensitif ac yn effeithiol. Efallai y byddant yn ei chael hi'n anodd dychwelyd at garfan wahanol o fyfyrwyr, neu'n teimlo y byddant yn dioddef stigma os bydd pobl yn darganfod pam y bu'n rhaid iddyn nhw gymryd amser bant.

106. Dylai sefydliadau addysgol osteopathig gael cynllun ailintegreiddio unigol ar gyfer pob myfyriwr dan yr amgylchiadau hyn. Dylid cytuno ar hyn ymhell cyn y disgwylir i'r myfyriwr ddychwelyd, gan nodi disgwyliadau clir, fel bod y broses ailintegreiddio'n cael ei rheoli'n dda.

107. Yn wahanol i fyfyrwyr ar lawer o gyrsiau addysg uwch lle mae cael eich ynysu mewn grwpiau mawr yn fwy cyffredin, mae gan fyfyrwyr addysg a hyfforddiant osteopathig fantais o fod yn rhan o grŵp myfyrwyr cymharol fach a chael cyswllt rheolaidd â staff tiwtorial. Yn hyn o beth, mae modd adnabod y rhai sy'n wynebu anawsterau yn gyflym a rhoi cefnogaeth dda iddyn nhw fel arfer. Yn yr un modd, mae'n bwysig cydnabod y gall perthynas glos ac elfennau agos-atoch sy'n nodweddiadol o addysg osteopathig fod yn heriol i rai myfyrwyr, yn enwedig rhai sydd â chyflyrau iechyd meddwl neu anableddau.

108. Mae system tiwtor personol sy'n darparu cymorth parhaus gydol y cwrs, sesiynau goruchwylio rheolaidd a chyfarfodydd cynnydd gyda myfyrwyr, a chael cyd-fyfyrwyr sy'n gwybod, yn deall, yn derbyn ac sy'n effro i arwyddion anhawster cynyddol, i gyd yn ffyrdd posibl o leddfu eithafion ac effaith cyflyrau iechyd amrywiol.

## Polisïau addasrwydd i astudio

109. Defnyddir prosesau addasrwydd i astudio yn helaeth mewn sefydliadau addysg uwch. Maen nhw'n helpu i asesu risg a chymryd camau gweithredu pan fydd iechyd, ymddygiad neu amgylchiadau eraill myfyriwr yn peri pryder. Gall pryderon o'r fath gynnwys gallu'r myfyriwr i gymryd rhan yn ei astudiaethau neu y gallai hyn achosi risg iddyn nhw eu hunain neu eraill.

110. Mae gweithdrefnau addasrwydd i astudio fel arfer yn cynnwys sawl cam, gydag ymyrraeth gynnar wedi'i chynllunio i nodi'r mater a chynnig cymorth priodol. Os yw'r materion sy'n peri pryder yn parhau, mae'r cam nesaf yn debygol o gynnwys proses fwy rhagweithiol a ffurfiol i asesu amgylchiadau'r myfyriwr, a phenderfynu ar y ffordd orau o reoli hyn.

111. Mewn sefydliadau addysgol osteopathig, mae'n debygol y bydd croesiad rhwng gweithdrefnau addasrwydd i astudio ac addasrwydd i ymarfer: gall methiant ymyrraeth gynnar dan broses addasrwydd i astudio arwain at ymchwiliad addasrwydd i ymarfer.

112. Mae canllawiau ar les meddyliol myfyrwyr mewn addysg uwch ar gael yng nghanllaw arferion da Universities UK[25]

---

[25] Fe'u gwelwch i gyd yn: www.universitiesuk.ac.uk/highereducation/Documents/2015/StudentMentalWellbeingInHE.pdf

**Addasrwydd myfyrwyr i ymarfer**

113. Pan fydd myfyriwr ag anabledd neu gyflwr iechyd yn methu â rheoli ei gyflwr yn iawn, er gwaethaf addasiadau a chymorth, gall cwestiwn godi ynghylch ei addasrwydd i ymarfer. Darperir canllawiau a chyngor manwl am addasrwydd myfyrwyr i ymarfer gan y Cyngor Osteopathig Cyffredinol i fyfyrwyr a sefydliadau addysgol osteopathig.[26]

114. Dylai sefydliadau addysgol osteopathig fod â pholisïau addasrwydd i ymarfer ar waith, lle gellir ymchwilio i bryderon difrifol am addasrwydd myfyriwr i ymarfer a'u rheoli. Materion i'w hystyried dan weithdrefnau o'r fath fyddai:

- rhai sy'n effeithio ar ddiogelwch cleifion
- rhai sy'n gallu effeithio ar ffydd ac ymddiriedaeth y cyhoedd ar y proffesiwn osteopathig.

115. Dylai sefydliadau addysgol osteopathig hefyd fod â phrosesau ar waith i ganfod problemau ymddygiad a allai arwain at bryderon addasrwydd i ymarfer. Gallai’r materion neu broblemau hyn gynnwys:

- presenoldeb gwael mewn darlithoedd
- cyflwyno'r gwaith cwrs yn hwyr
- diffyg diddordeb yn y cwrs
- ymddygiad ymosodol
- cyfathrebu gwael gyda staff a/neu gleifion.

Gyda'i gilydd, gallai'r rhain fod yn bryderon addasrwydd i ymarfer, ond gallant hefyd fod yn arwyddion o fyfyriwr sy'n stryglo yn gyffredinol, neu â chyflwr iechyd meddwl. Gall prosesau monitro fod yn ffordd o nodi problemau iechyd meddwl posibl, fel bod modd gweithredu'n briodol cyn gynted â phosibl.

**Hybu a hyrwyddo llesiant**

116. Dylai sefydliadau addysgol osteopathig hyrwyddo lles eu holl fyfyrwyr, nid dim ond rhai ag anableddau neu gyflyrau iechyd. Gallai enghreifftiau o sut y gallant wneud hyn gynnwys:

- cyflwyno ymarferion grŵp sy'n canolbwyntio ar reoli straen
- darparu adnoddau ar gynnal ffordd iach o fyw
- gall prosesau cymorth dysgu i gynorthwyo myfyrwyr i ddatblygu eu sgiliau astudio, eu helpu i weithio'n fwy effeithiol a thrwy hynny leihau straen
- mentora cymheiriaid neu gynlluniau cyfeillio i ddarparu cymorth.

[26] Ar gael yn: osteopathy.org.uk/news-and-resources/publications/student-fitness-to-practise-guidance

### Cyflawni cymhwyster cydnabyddedig

117. Bydd gan sefydliadau addysgol osteopathig reoliadau am asesiad, cynnydd a graddio myfyrwyr, sy'n cynnwys dangos y safonau cymhwysedd sy'n ofynnol gan y Safonau Ymarfer Osteopathig[27]. Cyfrifoldeb y sefydliad yw penderfynu a yw myfyriwr yn bodloni'r safon hon ac yn derbyn cymhwyster cydnabyddedig. Dyma safon trothwy na ellir ei amrywio. Rhan angenrheidiol o'r broses addysgol yw asesu ymddygiad ac agweddau proffesiynol myfyriwr.

118. Os oes tystiolaeth y gallai addasrwydd myfyriwr i ymarfer gael ei beryglu, dylid cychwyn achos addasrwydd i ymarfer ac adrodd ar y canlyniad i'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol. Os na all myfyriwr ddangos y safon sy'n ofynnol erbyn diwedd y rhaglen, ni ddylid dyfarnu cymhwyster cydnabyddedig iddo. Mewn rhai amgylchiadau, megis pan mae pryderon parhaus am agweddau ar ymddygiad proffesiynol, efallai y byddai'n briodol ystyried dyfarnu cymhwyster arall nad oes ganddo statws cymhwyster cydnabyddedig ac na all arwain at gofrestru gyda'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol. Fodd bynnag, ni all sefydliad addysgol osteopathig atal cymhwyster i fyfyriwr sydd wedi dangos cyflawniad safon cymhwysedd, ar sail dyfalu sut allai ymddwyn fel osteopath cofrestredig.

119. Mae cofrestru yn rhoi hawliau ymarfer anghyfyngedig. Nid yw'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol yn anodi'r Gofrestr i nodi bod gan ymarferydd anabledd neu gyflwr iechyd; nid yw ychwaith yn cymhwyso unrhyw amod neu gyfyngiad arall ar sut y dylai cofrestrydd newydd ymarfer osteopathi Mae penderfyniad i ddyfarnu cymhwyster cydnabyddedig yn golygu bod myfyriwr yn gallu ymarfer yn unol â'r safonau yn y *Safonau Ymarfer Osteopathig.* Unwaith y bydd unigolyn ar Gofrestr y Cyngor Osteopathig Cyffredinol, mae'n gyfrifol am gynnal safonau ymarfer proffesiynol.

120. Os bydd cofrestrydd wedyn yn datblygu anabledd neu gyflwr iechyd sy'n ei atal rhag cyflawni'r ystod lawn o weithgareddau ac ymyriadau osteopathig mewn ffordd ymreolaethol, ddiogel ac effeithiol, mae'n ddyletswydd ar y cofrestrydd i addasu ei waith yn unol â hynny i sicrhau y gallai ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol a chydymffurfio ag ystod lawn y *Safonau Ymarfer Osteopathig*. Gallai hyn, er enghraifft, olygu symud i weithio mewn practis grŵp lle byddai cydweithwyr ar gael i ddarparu cymorth neu eilydd, neu drwy gyfyngu'r ymarfer i ddull mwy cyfyngedig a thrwy beidio â chyflawni technegau penodol – ar yr amod nad yw hyn yn camarwain y cyhoedd ynghylch cwmpas yr osteopathi a ddarperir. Dylai osteopathiaid sy'n weithwyr uniongyrchol ofyn i'w cyflogwr i wneud addasiadau rhesymol.

[27] Ar gael yn: https://standards.osteopathy.org.uk/

## Adran 5: Rhagor o wybodaeth

Dyma restr o'r ffynonellau gwybodaeth ac arweiniad pellach:

**Action on Hearing Loss**
(Action on Hearing Loss yw enw masnach Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Fyddar a Thrwm eu Clyw, RNID).
19-23 Featherstone St, Llundain, EC1Y 8SL
Ffôn: 0808 808 0123
Ffôn testun: 0808 808 0123
E-bost: informationline@hearingloss.org.uk
https://www.mankind.org.uk/

**British Dyslexia Association**
Unit 8 Bracknell Beeches, Old Bracknell Lane, Bracknell, RG12 7BW
Ffôn: 0333 4054555
Llinell gymorth Prydain: 0333 4054567
www.bdadyslexia.org.uk

**Disability Rights UK**
Deall y Ddeddf Cydraddoldeb:
http://www.disabilityrightsuk.org/understanding-equality-act-information-disabled-students

**Mind**
15-19 Broadway, Stratford, Llundain, E15 4BQ
Ffôn: 020 8519 2122
E-bost: contact@mind.org.uk
www.mind.org.uk

**Mind Cymru**
3ydd Llawr, Tŷ Quebec, Pont y Castell
5-19 Cowbridge Road East, Caerdydd CF11 9AB
Ffôn: 029 2039 5123

**Royal National Institute of Blind People**
105 Judd Street, Llundain WC1H 9NE
Llinell gymorth: 0303 123 9999.
www.rnib.org.uk

**Y Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC)**
Mae'r GMC yn cynnig amrywiaeth o adnoddau sydd â'r nod o gefnogi myfyrwyr meddygol â chyflyrau iechyd meddwl (gweler http://www.gmc-uk.org/education/undergraduate/23289.asp) ac anableddau (http://www.gmc-uk.org/information_for_you/). Gall y rhain fod o gymorth hefyd mewn cyd-destun osteopathig. Mae gan y GMC swyddfeydd ledled y DU (www.gmc-uk.org/about/contacts.asp)

**Y Cyngor Osteopathig Cyffredinol**
176 Tower Bridge Road, Llundain, SE1 3LU
Ffôn: 020 7357 6655
E-bost:info@osteopathy.org.uk
www.osteopathy.org.uk

**The Equality Advisory Support Service**
Mae'r Llinell Gymorth yn cynghori a chynorthwyo unigolion ar faterion cydraddoldeb a hawliau dynol ar hyd a lled Cymru, yr Alban a Lloegr.
Llinell gymorth: 0808 8000082
www.equalityadvisoryservice.com/app/home

**The Equality Challenge Unit:**
www.ecu.ac.uk

**Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol**
Mae gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol gylch gwaith statudol i hyrwyddo a monitro hawliau dynol ac i amddiffyn, gorfodi a hyrwyddo cydraddoldeb ar draws y nodweddion gwarchodedig. Gellir cael mynediad at:
www.equalityhumanrights.com

**The Office of the Independent Adjudicator (OIA)**
Corff annibynnol a sefydlwyd i ymdrin â chwynion myfyrwyr. Mae'r gwasanaeth am ddim i fyfyrwyr, ac yn ymdrin â chwynion yn erbyn darparwyr addysg uwch yn Lloegr a Chymru.
OIA, Second Floor, Abbey Gate, 57-75 Kings Road, Reading, RG1 3AB
http://oiahe.org.uk

**Directgov**
Gwybodaeth am y Lwfans Myfyrwyr Anabl.
www.direct.gov.uk/en/DisabledPeople/EducationAndTraining/HigherEducation/DG_10034898

**Government Equalities Office**
Mae'r Government Equalities Office (sy'n rhan o Swyddfa Gartref San Steffan) yn gyfrifol am faterion strategaeth a deddfwriaeth cydraddoldeb ledled y llywodraeth. Ar gael yn:
http://homeoffice.gov.uk/equalities

**Deddfwriaeth**

Mae *Deddfwriaeth Cydraddoldeb 2010* ar gael yn:
https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2010/15/contents

Mae nodiadau esboniadol i *Ddeddf Cydraddoldeb 2010* ar gael yn:
www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/notes/contents

Mae *Deddf Osteopathiaid* 1993 ar gael yn:
www.legislation.gov.uk/ukpga/1993/21/contents